



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL

22/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

11/04/2017

# Sylfaen Ddigidol Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Sylfaen Ddigidol Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Prosiect Ymchwil Aeddfedrwydd Digidol

Socitm Advisory Ltd

Rogers, Halliday, Corbett

Mae'r farn a fynegir yn yr adroddiad yma yw hwnnw o'r ymchwilwyr, ac nid yn benodol hynny o Lywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Ceri Greenall

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Park Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn 0300 025 5634

E-bost: [ceri.greenall@wales.gov.uk](mailto:ceri.greenall@wales.gov.uk)

## Cynnwys

|                                                                              |    |
|------------------------------------------------------------------------------|----|
| Rhestr Ffigyrau.....                                                         | 2  |
| Rhestr Tablau.....                                                           | 2  |
| 1. Crynodeb Gweithredol.....                                                 | 3  |
| 2. Cyflwyniad, terfynau a phwrpas.....                                       | 7  |
| 3. Dull .....                                                                | 8  |
| 4. Y chwe dimensiwn o Ddigidol – trosolwg.....                               | 13 |
| 5. Dimensiynau Digidol: Canfyddiadau.....                                    | 14 |
| 5.1 Dimensiwn 1: Trafodion Digidol.....                                      | 14 |
| 5.2 Dimensiwn 2: Arweiniad Ddigidol .....                                    | 19 |
| 5.3 Dimensiwn 3: Clyfar gyda data.....                                       | 24 |
| 5.4 Dimensiwn 4: Dylunio i ganolbwyntio ar y dinesydd.....                   | 29 |
| 5.5 Dimensiwn 5: Cynhwysiant Digidol .....                                   | 34 |
| 5.6 Dimensiwn 6: Staff Digidol .....                                         | 39 |
| 6. Casgliadau a digidol y dyfodol .....                                      | 44 |
| 6.1 Aeddfedrwydd digidol awdurdodau lleol Cymru wedi ei grynhoi.....         | 44 |
| 6.2 Blaenoriaethau a sialensiau .....                                        | 45 |
| 6.3 Digidol y dyfodol.....                                                   | 45 |
| 7. Argymhellion.....                                                         | 47 |
| 7.1 Argymhellion i awdurdodau lleol.....                                     | 47 |
| 7.2 Argymhellion i Lywodraeth Cymru.....                                     | 47 |
| 7.3 Mentrau tymor byr .....                                                  | 48 |
| 7.4 Ystyriaethau tymor hir .....                                             | 49 |
| Atodiad A - Asesiad Aeddfedrwydd Digidol (AAD) - Cwestiynau hunanasesu ..... | 51 |
| Atodiad B - Sgôr Cysylltu Gwell .....                                        | 61 |
| Atodiad C - Fframwaith cyfweld.....                                          | 62 |
| Atodiad D – Dilynwyr Trydar yn ôl maint Poblogaeth Cymru .....               | 65 |
| Atodiad E – Geirfa .....                                                     | 66 |
| Atodiad F – Parthau ail lefel .....                                          | 70 |

## Rhestr Ffigyrau

|                                                                                              |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Ffigwr 1 Nifer o awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd .....                          | 3  |
| Ffigwr 2 Argymhellion gweithrediadau tymor hir a thymor byr .....                            | 6  |
| Ffigwr 3 Ymdriniaeth ymchwil a gymerwyd gan Socitm Advisory Ltd .....                        | 8  |
| Ffigwr 4 Agweddau (dimensiynau) digidol allweddol i lywodraeth leol .....                    | 13 |
| Ffigwr 5 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd trafodion digidol.....        | 15 |
| Ffigwr 6 Canran graddau sêr yr awdurdodau lleol am drafodion digidol 2015/2016..             | 16 |
| Ffigwr 7 Cyfeiriad datblygiad awdurdodau lleol Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf ...           | 17 |
| Ffigwr 8 Cyfeiriad datblygiad awdurdodau lleol y DU dros y 5 mlynedd diwethaf.....           | 17 |
| Ffigwr 9 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd arweinyddiaeth ddigidol.....  | 20 |
| Ffigwr 10 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd 'data clyfar.....            | 25 |
| Ffigwr 11 Awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd cynllunio yn ymateb i'r dinesydd..... | 30 |
| Ffigwr 12 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd Cynhwysiant Digidol .....    | 35 |
| Ffigwr 13 Map gwres allgau digidol 'Dot everyone' .....                                      | 36 |
| Ffigwr 14 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd Staff Digidol.....           | 40 |
| Ffigwr 15 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd digidol.....                 | 44 |
| Ffigwr 16 Ni fydd aeddfedrwydd digidol byth i ben .....                                      | 46 |
| Ffigwr 17 Gweithrediadau tymor hir a byr.....                                                | 48 |

## Rhestr tablau

|                                                                             |    |
|-----------------------------------------------------------------------------|----|
| Tabl 1 Testunau ymchwil.....                                                | 12 |
| Tabl 2 Dulliau ail –gynllunio proses busnes yn awdurdodau lleol Cymru ..... | 31 |
| Tabl 3 Polisiâu cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Staff.....                  | 32 |
| Tabl 4 Lefelau allgau digidol ar draws Cymru .....                          | 37 |
| Tabl 5 Prosiectau gweithio symudol ar draws awdurdodau lleol .....          | 42 |
| Mudo i barthau llyw.cymru.....                                              | 70 |

## 1. Crynodeb Gweithredol


### 1.1 Y Gofynion

- 1.1.1 Comisynwyd Socitm Advisory Ltd gan Lywodraeth Cymru i gynnal prosiect ymchwil aeddfedrwydd digidol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Digwyddodd yr ymchwil gyda'r awdurdodau lleol rhwng Rhagfyr 7fed 2016 a Chwefror 5ed 2017. Mae'r adroddiad yma gan Socitm Advisory Ltd yn crynhoi'r casgliadau a'r argymhellion.
- 1.1.2 Gan fod 'digidol' yn golygu llawer o bethau mae Socitm Advisory Ltd a Llywodraeth Cymru wedi nodi chwe dimensiwn sy'n berthnasol i gyflawni gwasanaeth awdurdodau lleol.
- 1.1.3 Gwneir asesiad o lefel aeddfedrwydd y mae awdurdodau lleol Cymru wedi'i gyrraedd ym mhob dimensiwn.
- 1.1.4 Nodir yr argymhellion lle mae Socitm Advisory Ltd a'r awdurdodau lleol yn ystyried gall Llywodraeth Cymru helpu gyda datblygu aeddfedrwydd digidol a'r gallu i gyflawni yn ddigidol

### 1.2 Crynodeb o aeddfedrwydd digidol awdurdodau lleol Cymru

- 1.2.1 Dangosir lledaeniad aeddfedrwydd digidol yr awdurdodau lleol yn Ffigwr 1. Mae'r rhif ar bob gris o'r ysgol aeddfedrwydd ddigidol yn cynrychioli nifer yr awdurdodau lleol Cymru asesir i fod ar y lefel yna o aeddfedrwydd yn ystod yr ymchwil hwn.

*Ffigwr 1 Nifer o awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd*



- 1.2.2 Darganfyddodd Socitm Advisory Ltd bod awdurdodau lleol Cymru wedi cyflawni cymysgedd o aeddfedrwydd digidol, gyda rhai yn gryfach gyda thrafodion dinesydd ac eraill gyda ffyrdd digidol o weithio gyda staff.
- 1.2.3 Mae'r trawstoriad aeddfedrwydd digidol yn debyg i'r trawstoriad yn awdurdodau eraill yn y D.U. Ni ddaethom o hyd i unrhyw awdurdod lleol oedd wedi cyflawni uchafswm aeddfedrwydd digidol mewn unrhyw ddimensiwn.

Fodd bynnag, trwy'r ymchwil hwn mae'n amlwg fod dyheadau arweinyddiaeth ddigidol yn uchel.

- 1.2.4 Cymerodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ran yn yr ymchwil sy'n dangos ymrwymiad clir i'r agenda digidol.

Mae'r chwe dimensiwn digidol sy'n berthnasol i awdurdodau lleol ac yn cael eu harchwilio yn yr ymchwil hwn fel a ganlyn:

### **1.3 Trafodion Digidol**

- 1.3.1 Diffiniad: Y graddau y gall dinesydd wneud cais am wasanaethau o safle gwe awdurdod lleol.

- 1.3.2 Canfyddiadau: Mae deg awdurdod lleol Cymru yn cadw i fyny gyda llwyddiannau trafodion digidol cenedlaethol a rhyngwladol mewn Llywodraeth Leol ond mae llawer mwy i'w wneud. Nid yw rhyw ddeuddeg awdurdod llywodraeth leol Cymru yn flaenllaw iawn gydag ymrwymiad dinasyddiaeth ddigidol. Mae hyn yn debyg i ddosbarthiad aeddfedrwydd trafodion digidol ar draws awdurdodau lleol yng ngwledydd eraill y DU.

### **1.4 Arweinyddiaeth Ddigidol.**

- 1.4.1 Diffiniad: Y lefel mae'r digidol wedi ei fewnblannu fel llinyn aur o fewn cynlluniau corfforaethol / strategol ac ymlaen i strategaethau cynllunio a lle mae gwelliannau mesuradwy yn cael eu harddangos.
- 1.4.2 Canfyddiadau: Mae'r dyheadau am ddigidol yn uchel ond mae cynllunio strategol yn anghyson. Gallai rhai awdurdodau ddangos strategaethau corfforaethol ar gyfer digidol ond ni allai eraill ddangos, neu nid oeddent yn dangos tystiolaeth o gynlluniau corfforaethol.

### **1.5 Clyfar gyda data**

- 1.5.1. Diffiniad: Casglu'r data cywir mewn ffordd hygyrch a gwneud penderfyniadau deallus. Gwneud data agored ar gael i ddinasyddion a busnesau eu treulio.

- 1.5.2. Canfyddiadau: Dyma faes mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn troi eu sylw arno wedi cydrannau digidol eraill aeddfedu, megis cyflwyno prynu ar-lein. Yng Nghymru mae aeddfedrwydd data yn isel, fodd bynnag, mae'r awydd yn uchel, ac mae yn awr gyfleoedd sylweddol i fod yn fwy clyfar gyda data, a all fod ar lefel cenedlaethol.

### **1.6. Dylunio i ganolbwyntio ar y dinesydd**

- 1.6.1. Diffiniad: Rhoi'r dinesydd yng nghanol dyluniad digidol trwy weithio'n agos gyda dinasyddion i ail-ddylunio'r broses busnes a gwasanaethau ar-lein. Defnyddio data dinasyddion i yrru dyluniant gwasanaeth.

1.6.2. Canfyddiadau: Dyw proses dylunio busnes systematig a chyson gyda dinasyddion wrth graidd y broses ddim i'w weld yn amlwg gan unrhyw awdurdod lleol. Mae rhai enghreifftiau da, ond maent yn dueddol o fod yn ynysig o fewn adrannau.

## 1.7. Cynhwysiant Digidol

1.7.1. Diffiniad: Sicrhau fod gan ddinasyddion a busnesau fynediad i ddigidol

1.7.2. Canfyddiadau: Mae allgau digidol yng Nghymru yn debyg i'r hyn yn yr Alban ond yn uwch nag yn Lloegr. Tra bod awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r farchnad yn gwneud popeth gallant i fynd i'r afael â hyn, mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn bwysau ariannol

## 1.8 Staff digidol

1.8.1. Diffiniad: Darparu dyfeisiadau symudol digidol a ffyrdd hyblyg o weithio i staff er mwyn cael yr effeithlonrwydd gorau posib. Gweithredu proses cefn swyddfa ddigidol awtomatig a llif gwaith.


1.8.2. Canfyddiadau: Mae llif gwaith digidol yn bod mewn awdurdodau lleol Cymru, ond nid yw'n aeddfed. Mae rhai awdurdodau lleol, a yrrir gan strategaeth ased eiddo, yn gweithredu amgylchedd weithio symudol a di-bapur hynod lwyddiannus i'w staff.

## 1.9 Crynhoi argymhellion

1.9.1. Gofynnodd Socitm Advisory Ltd i bob un awdurdod lleol sut y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ddatblygu aeddfedrwydd digidol a chyflawni digidol. Canfyddodd yr ymchwili fod cydweithredu parhaus rhwng awdurdodau lleol a Thîm Digidol y Llywodraeth yn elfen hanfodol er mwyn cyflawni'r Agenda Digidol Cenedlaethol. Dylai'r berthynas gyda'r awdurdodau lleol ar yr agenda digidol fod yn un o gydweithredu ar strategau allweddol mentrau digidol a all wneud effaith raddfa fwy ar draws yr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill y sector gyhoeddus. Dylai tîm Digidol Llywodraeth Cymru gymryd rôl fwy rhagweithiol o gynghori, llywio a galluogi'r awdurdodau lleol gyda'u hagenda digidol, yn ogystal ag annog yr awdurdodau lleol i gymryd rhan yn llunio'r agenda ddigidol genedlaethol.

1.9.2. Ymhellach wedi adolygu'r canfyddiadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, mae Socitm Advisory Ltd yn argymhell gweithredoedd allweddol tymor byr a thymor hir fel amlinellir yn Ffigwr 1.

*Ffigwr 2 Gweithrediadau a argymhellir; tymor byr a thymor hir*



1.9.3. Mae'r argymhellion tymor byr yn ystyriaethau di-oed y bwriedir i wneud effaith cynnar ac yn nhermau meddwl hir dymor o gwmpas yr agenda digidol. Maent yn cynnwys hwb ddigidol rithiol, digwyddiadau digidol a chydweithio cynorthwyedig.

1.9.4. Mae'r argymhellion hirdymor wedi eu hanelu at systemau fwy rhannog, mwy o weithgareddau craffu cydgysylltiedig, datrysiad digidol tactegol, gwell isadeiledd a chynhwysiant digidol a ffocws ar ddata a'i berthnasedd i fewnwelediad dinesydd.



## **2. Cyflwyniad, terfynau a phwrrpas**

### **2.1. Nodau ac amcanion yr ymchwil**

2.1.1. Comisiynnodd Llywodraeth Cymru Socitm Advisory Ltd i ymgymryd â phrosiect ymchwil aeddfedrwydd digidol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Dechreuodd y prosiect ymchwil hwn ar 3ydd o Hydref 2016 a chwblhawyd 30ain Mawrth 2017. Digwyddodd yr ymchwil gydag awdurdodau lleol unigol rhwng 7 Rhagfyr 2016 hyd at 15fed Chwefror, 2017. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi y canfyddiadau a'r argymhellion gan Socitm Advisory Ltd.

2.1.2. Socitm Ltd yw'r gymdeithas i ymarferwyr TG a digidol yn y sector gyhoeddus a'r trydydd sector. Sefydliad aelodaeth sy'n cynnig ymghynghoriaeth, meincnodi, rhwydweithio a chynhyrchu ymchwil, yn ogystal â hyrwyddo i'r llywodraeth er budd TG a digidol y sector gyhoeddus. Mae Socitm Advisory Ltd yn gangen gynghori i Socitm Ltd a ymgymrodd â'r ymchwil.

### **2.2. Cwmpas a phwrrpas yr ymchwil**

2.2.1. Mae'r ymchwil hwn yn darparu golwg gyfoes ar aeddfedrwydd digidol y 22 awdurdod lleol yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, gan gwmpasu'r meysydd canlynol:

- Aeddfedrwydd digidol a'r dull a gymerir gan awdurdodau lleol wrth ddatblygu a chyflawni gwasanaethau digidol yn eu hardaloedd daeryddol.
- Trefniadau presennol ac arfaethedig i ddarparu gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i ddarparu agenda ddigidol
- Y dulliau y defnyddia awdurdodau lleol eu data i ddarparu gwasanaethau digidol.
- Sut mae awdurdodau lleol yn genedlaethol yn rhannu eu arferion da, ennill ysbrydoliaeth a chydweithio ar yr agenda digido

2.2.2. Mae'r casgliad, yn cynrychioli'r darlun dros y 22 awdurdod lleol. Dyw canfyddiadau awdurdodau lleol unigol ddim wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o arferion da gan rai awdurdodau lleol unigol wedi eu hamlygu.


2.2.3. Bwriad Llywodraeth Cymru yw defnyddio'r canfyddiadau o'r ymchwil hwn i adnabod sut y gall trawsnewidiad digidol gael ei gymryd ymhellach yng Nghymru a pha rôl a gweithrediadau y gallant hwy ar awdurdodau lleol ei gymryd.

### 3. Dull

#### 3.1. Camau'r dull

3.1.1. Strwythurwyd y prosiect ymchwil a ymgwymerwyd gan Socitm Advisory Ltd ar ran Llywodraeth Cymru mewn 6 rhan fel yr amlinellwyd yn Ffigwr 3

*Ffigwr 3 Dull ymchwil ymgwymerwyd gan Socitm Advisory Ltd*



#### 3.2. Cam 1 - Cyflwyniad y prosiect a gweithredoedd rhag-ofynol

3.2.1. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru pob awdurdod lleol i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn. Yn amlwg fod Llywodraeth Cymru wedi cyfleu'r nod a'r amcanion i bob awdurdod lleol, nid oedd cymryd rhan yn angenrheidiol.

3.2.2. Cymrodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ran yn y prosiect ymchwil. Roedd hyn yn 100% yn cymryd rhan.

3.2.3. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol a gytunodd i gymryd rhan i:

(a) cwblhau, holiadur AAD gan Socitm Advisory, os nad oeddent wedi gwneud hyn eisoes.

b) darparu'r holl wybodaeth briodol a chefnogol sydd yn berthnasol i ddigidol i Socitm Advisory Ltd cyn y cyfweiliad ffôn yng Ngham 4

c) Nodi os dymunant gael y cyfweiliad ffôn yn gyda Socitm Advisory Ltd yn Gymraeg neu yn Saesneg

d) Sicrhau y byddant yn cytuno i rannu eu data gyda Llywodraeth Cymru i bwrpas canfyddiadau cryno ac adroddiad yr argymhellion. Cafwyd caniatâd gan bob awdurdod lleol i wneud hyn.

### **3.3 Rhan 2 - Asesiad Aeddfedrwydd Digidol (AAD)**

3.3.1. Pwrpas Asesiad Aeddfedrwydd Digidol Socitm Advisory Ltd yw sicrhau fod gan sefydliad lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r sefyllfa, fel y gallant gynllunio eu camau nesaf. Gall y cyfranogwr ei ystyried fel gwir 'hunan' asesiad, neu gall ateb y cwestiwn o safbwynt trefnusrwydd.

3.3.2. Mae adroddiad unigol yn cael ei ddefnyddio i baratoi'r camau nesaf sy'n rhaid eu gwneud i fod yn sefydliad mwy digidol. Gall awdurdod lleol ail wneud yr asesiad unrhyw nifer o weithiau a mynnent o fewn y cyfnod trwyddedu, i ail fesur eu llwyddiant. Mae gan yr asesiad dair rhan.

3.3.3 **Rhan 1.** Darganfod eich lle ar y daith ddigidol gan edrych ar: Strategaeth, Diwylliant, Arweinyddiaeth a Darpariaeth Llywodraeth, Perfformiad, Sgiliau, Cynllunio Gwasanaeth, Mynediad dinasyddion, Technoleg, Esiamplau o Arloesi

3.3.4 Rhan 2. Profi perfformiad yn erbyn 15 o egwyddorion arfer da:

- Profiad dinasyddion
- Ymrwymiad
- Modd o weithio
- Cynllunio gwasanaeth
- Ymdopi a'r galw
- Arweinyddiaeth
- Galluogrwydd
- Rhannu
- Gweithio hyblyg
- Tryloywder
- Defnyddioldeb
- Dewis system
- Defnyddio
- Cymorth digidol
- Perfformiad

3.3.5 **Rhan 3** - Adroddiad

3.3.6 Mae adroddiad hunanasesiad AAD unigryw yn cael ei greu i'r sefydliad ei adolygu.

3.3.7 Fe gwblhaodd pob awdurdod lleol a gymerodd rhan yn y prosiect ymchwil yma holiadur AAD Socitm Advisory LTD. Mae pob awdurdod lleol wedi cael eu canfyddiadau o'r holiadur. Mae adroddiad cyfunol hefyd yn cael ei gynhyrchu i ddangos ffigyrau dienw ar gyfer y grŵp awdurdodau lleol Cymru.

3.3.8 Rhoddwyd canfyddiadau'r AAD i ymgynghorydd Socitm Advisory LTD oedd yn cynnal y cyfweiliad ffôn. Mae cwestiynau'r AAD i bob awdurdod lleol wedi eu hatodi yn Atodiad A.

### **3.4 Rhan 3 – Adolygiad gwefan ac ymchwil bwrdd gwaith**

3.4.1 Mae gwefannau'r holl awdurdodau lleol wedi cael eu hadolygu gan Socitm Ltd yn y dadansoddiad blynyddol "Better Connected". Mae'r gwefannau wedi eu graddoli o un i bedair seren, ac wedi eu 'pasio' neu 'fethu' ar gyfer addasrwydd ar gyfer dyfeisiadau symudol, a hygyrchedd. Mae'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi mewn modd agored a hygyrch ar wefan Socitm Ltd:

<https://betterconnected.socitm.net/councils> Mae manylion scôr 'Better Connected' i'w gweld yn Atodiad B.

3.4.2. Mae 'Better Connected' wedi bod yn asesu perfformiadau ar-lein awdurdodau lleol ers 1999. Heddiw, mae'n gwerthuso ystod eang o berfformiadau digidol gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan edrych ar wefannau, cyfryngau cymdeithasol, pyrth dinesyddion, yn ogystal â'r bodlonrwydd i gymryd rhan, a rheolaeth.

3.4.3 Mae meincnod blynyddol 'Better Connected' o holl wefannau'r DU nid yn unig yn asesu hygyrchedd pob gwefan, ond hefyd yn asesu gallu dinesydd i wneud trafodyn penodol. Mae awdurdod lleol yn darparu dros fil o wasanaethau a chynnyrch, a channoedd y gellir eu cyflawni'n ddigidol. Mae hyn yn darparu asesiad ar gynllun y wefan, defnyddioldeb, addasrwydd ar gyfer dyfeisiadau symudol a dyfnder rhyngweithiol. Mae cyfeiriad at y wybodaeth yma yn yr asesiadau aeddfedrwydd sydd wedi ei gynnwys yn rhan canfyddiadau Ymchwil Trafodion Digidol o'r adroddiad hwn.

3.4.4. Mae arolygon 'Better Connected' yn archwilio gallu'r gwefannau i ddarparu 'teithiau' cyflym a hawdd i ddinasyddion, gyda chanlyniadau llwyddiannus i gyfres o dasgau. Mae tasgau yn cael eu dewis o adrannau gwasanaeth sydd yn cael nifer fawr o ymwelwyr ar y we (yn seiliedig ar ddata gan wasanaeth Perfformiad Gwefan Socitm), neu sydd yn bwysig am resymau deddfwriaethol neu newid arall. Mae cynnwys tasgau ar gyfer gwybodaeth yn unig yn seiliedig ar y ffaith fod data yn dangos mai pwrpas tros hanner yr holl ymweliadau i wefan yw cael gwybodaeth yn unig.

3.4.5 Gallai 'prif dasgau' fod i bwrpas gwybodaeth (cael gwybodaeth am gadw'n heini) neu drafodaethol (talw dirwy parcio). Yr ystadegau cenedlaethol sydd yn dynodi'r wybodaeth am y tasgau sydd i'w mesur gan roi gwybodaeth am ofynion mwyaf cyffredin y bobl. Mae rhain yn amrywio tros y blynyddoedd, i ddosbarthu'r dadansoddi yn gyfartal. Rhai enghreifftiau o fesuriadau trafodaethol yn 2015/2016 yw gwrthwynebu cais cynllunio, adnewyddu cerdyn llyfrgell neu gofnodi colli casgliad bin.

3.4.6 Mae arolygwyr yn cynnal rhai profion ar ffôn clyfar (e.e. tasgau sbwriel ac ailgylchu yn 'Better Connected' 2015-2016), sy'n adlewyrchu'r ffaith fod bron i hanner yr ymweliadau i wefannau cyngor yn cael eu gwneud o ddyfais symudol.

3.4.7. Fel rhan o'r elfen ymchwil bwrdd gwaith, gofynnwyd i bob awdurdod lleol ddarparu dogfennau strategol allweddol a chynlluniau (pan fônt yn bod) i Socitm Advisory Ltd, ac roeddent yn cael eu hadolygu gan ymgynghorydd Socitm Advisory Ltd cyn y cam cyfweiliad ffôn. Gofynnwyd am ddogfennau yn cynnwys Cynllun/Strategaeth y Cyngor, Cynllun/Strategaeth Trawsnewid, Strategaeth Ddigidol a Strategaeth TGCh.

### **3.5 Cam 4 – Cyfweiliad Ffôn**

3.5.1 Cynhaliodd ymgynghorydd Socitm Advisory Ltd gyfweiliad ffôn oddeutu 90 munud gyda chynrychiolwyr o bob awdurdod lleol. Defnyddiwyd y cyfweiliad ffôn i ddilysu'r canfyddiadau o Gam 3 - cydran ymchwil bwrdd gwaith o'r prosiect ymchwil. Roedd nifer y cynrychiolwyr yn amrywio o un cyfranogwr i grwpiau yn cynnwys rhwng dau a phedwar. Roedd y gynrychiolaeth o bob llywodraeth leol yn amrywio dros nifer o swyddogaethau, megis Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr TGCh, Pennaeth TGCh a Phennaeth Gwasanaethau Dinasyddion.

3.5.2 Rhoddwyd fframwaith y cyfweiliad i bob awdurdod lleol, a rhoddir hwn yn Atodiad C.

3.5.3. Gan fod digidol yn edrych ar effaith technoleg wrth ddarparu gwasanaeth, mynnodd y tîm cyfweild gael uwch arweinwyr busnes fel rhan o gynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn y cyfweiliad, yn ogystal ag arweinwyr technoleg. Roedd yn llwyddiannus gan fwyaf.

3.5.4. Roedd testunau ymchwil y cyfweiliad ffôn wedi eu rhoi gan Lywodraeth Cymru; gwelir y manylion yn Nhabl 1. Roedd pob un o'r testunau ymchwil yn asesu agwedd wahanol i awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r agenda digidol, ac roedd y wybodaeth yn cael ei defnyddio yn y chwe dimensiwn ac adrannau penodol eraill i lunio'r argymhellion.

3.5.5 Rhoddwyd canlyniad pob cyfweiliad ffôn i bob awdurdod lleol yn ysgrifenedig.

3.5.6. Defnyddiodd tîm ymgynghori Socitm Advisory Ltd y canfyddiadau o bob cyfweiliad gydag awdurdod lleol i lunio cymariaethau a chyferbyniadau ardraws pob awdurdod lleol a oedd yn cymryd rhan. Mae'r cymariaethau a chyferbyniadau yma yn trwytho'r canfyddiadau a'r argymhellion ar gyfer y prosiect ymchwil yma.


Tabl 1 Testunau Ymchwil

| Testunau ymchwil                      | Asesiad a dealltwriaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|---------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Strategaeth, cynllun a blaenoriaethau | Y cwrpas a lefel yr uchelgais a chynnydd wrth gyflawni yn erbyn eu strategaeth TGCh, strategaeth trawsnewid a Strategaeth Ddigidol. Sut mae prosiectau yn cael eu hamlygu, blaenoriaethu a'u cyflawni.<br>Pa ffordd sydd i fesur a dilysu'r enillion ar fuddsoddiad y trawsnewid digidol.<br>Pa ddulliau a thechnegau a ddefnyddir i gyflenwi trawsnewid digidol?<br>Y lefel o uwch berchnogaeth a noddwyr o flaenoriaethau allweddol digidol dros y 3 blynedd nesaf mewn perthynas â digidol. |
| Llwyddiannau a chyraeddiadau          | Deall cyraeddiadau allweddol mewn digidol tros y 3 blynedd diwethaf.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Cyfleoedd a sialensiau                | Cyfleoedd mewn perthynas â thrawsnewid digidol<br>Sialensiau mewn perthynas â thrawsnewid digidol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Cydweithio                            | Tystiolaeth o gydweithio rhwng awdurdodau lleol eraill a phartneriaid sector gyhoeddus.<br>Y cwrpas i feincnodi fforymau a grwpiau a ddefnyddir                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Gallu                                 | Y modd i chwilio am y gallu a'r cymhwysedd cywir ar gyfer trawsnewid digidol o fewn yr awdurdod lleol – staff a thrydydd parti.<br>Y modd i chwilio am sgiliau ac adnoddau mewn trawsnewid digidol                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Cyfryngau Cymdeithasol                | Sut mae arfau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio<br>Y cwrpas a lefel yr uchelgais wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Data Clyfar                           | Cynlluniau cyfredol a'r dyfodol wrth ddefnyddio data a gwybodaeth busnes                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Seiberddiogelwch                      | Lefel risg cyfredol o seibrddiogelwch<br>Y llywodraethu sydd mewn llaw, ac unrhyw gynlluniau i'w datblygu yn y dyfodol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Technoleg cwmwl                       | Cwrpas cyfredol cyfrifiadura cwmwl<br>Cynlluniau'r dyfodol, sialensiau a chyfleoedd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Parth ail lefel                       | Lefel ymwybyddiaeth o barthau ail lefel .gov.wales a llyw.cymru<br>Cynlluniau yn ymwneud ag uno i barth ail lefel.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Argymhellion i Lywodraeth Cymru       | Gofynnwyd i bob awdurdod lleol ddarparu unrhyw argymhellion pellach i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r agenda yn ymwneud â thrawsnewid digidol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |

## 4. Y Chwe dimensiwn o ddigidol – Trosolwg

4.1.1. Pwrpas asesiad aeddfedrwydd digidol yma yw mesur technolegau digidol a'u gwasanaethau ar lein, a sut maent yn cael eu gweithredu i newid bywydau dinasyddion yn genedlaethol. Mae hefyd yn ystyried datblygiad arferion digidol i yrru gweithredu effeithiol i mewn awdurdod lleol a'r staff. Gallwn ystyried aeddfedrwydd digidol mewn chwe dimensiwn fel y gwelir yn Ffigwr 4. Mae pob un o'r dimensiynau hyn y cael eu harchwilio yn yr adrannau nesaf yn yr adroddiad hwn.

*Ffigwr 4 Agweddau (dimensiynau) o allwedd digidol i lywodraeth leol*



## 5 Dimensiynau Digidol: Canfyddiadau

Mae'r canfyddiadau wedi cael eu categorio yn ôl y chwe dimensiwn digidol a nodir uchod.

### 5.1 Dimensiwn 1: Trafodion Digidol



#### Beth yw hyn?

5.1.1. Mae 'trafodion digidol' yn golygu pa mor hawdd ydyw i ddinesydd gael mynediad i wasanaethau ar-lein yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yma yn edrych ar ba mor hawdd yw mynediad a llywio gwefan yr awdurdod lleol, i ddinasyddion gysylltu, dod o hyd i gyngor a chymorth a chwblhau trafodion ar-lein.

5.1.2. Yn yr adran yma, edrychwn ar:

- Sgôr meincnod mynediad digidol pob awdurdod lleol
- Lefel uchelgais pob awdurdod lleol mewn perthynas â gwella'r profiad o drafodion digidol.
- Gorchestion mewn perthynas â'r llwyddiant i alluogi dinasyddion gwblhau eu cais am wasanaeth ar-lein.

#### Crynodeb o'n canfyddiadau


5.1.3 Mae awdurdodau lleol Cymru yn dal eu tir gyda meincnodau cenedlaethol a rhyngwladol mewn Llywodraeth Leol, ond mae llawer i'w wneud.

5.1.4. Mae awdurdodau lleol wedi llwyddo i symud trafodion dinasyddion ar-lein dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn bennaf wedi mynd i'r afael â thrafodion yn ymwneud â thaliadau, gwneud ymholiadau, gwneud cais am wasanaethau a gwneud apwyntiadau. Mae nifer o awdurdodau wedi cyflwyno ceisiadau dros ffônau symudol chynnig cyfrif dinesig.

5.1.5. Yn seiliedig ar y meincnod ar gyfer trafodion digidol, mae Socitm Advisory Ltd yn gweld aeddfedrwydd digidol fel a ganlyn yn Ffigwr 5



*Ffigwr 5 Nifer awdurdodau lleol Cymru ar bob lefel o aeddfedrwydd trafodion digidol*



### **Sut mae da yn edrych?**

5.1.6. Mae'r gallu i ddinesydd gwblhau eu trafodion ar-lein yn gofyn i'r broses fewnol lifo drwyddi draw, wedi ei huno, ac yn gofyn am gyn lleied â phosib o fewnbwn digidol gyda llaw. Mae cwmnïau arweiniol y sector breifat yn aeddfed iawn yn y maes yma, yn darparu taith ddigidol o'r dechrau i'r diwedd i'w cwsmeriaid. Er enghraifft, wrth siopa ar-lein gall y cwsmer ddewis amser cyfleus iddyn nhw, dewis eu nwyddau eu hunain, gwneud newidiadau i'w archeb o fewn amser penodedig, talu a rhoi adborth uniongyrchol. Mae hyn yn darparu egwyddor terfynnol sydd yn lleihau mewnbwn â llaw gan staff cefn swyddfa. Mae awdurdodau lleol yn tueddu i ddigido rhan o'r trafodion ar lein, er enghraifft i roi gwybod am golli casgliad bin. Mae awdurdodau lleol da yn sicrhau fod y cais am golli casgliad bin yn cael ei basio ymlaen a'i gyflawni, monitor y canlyniad, a darparu adborth i'w dinasyddion heb fewnbwn â llaw. Gall neges destun neu e-bost awtomatig i'r dinesydd sydd wedi nodi'r digwyddiad neu wneud ymholiad, yn egluro'r camau nesaf yn glir, neu yn syml, ddiolch i'r dinesydd, leihau cysylltiad ac ymholiadau pellach. Mae disgwyliadau dinasyddion yn uchel iawn wrth ddisgwyl am ymateb ac adborth. Mi wnaiff awdurdodau lleol da symleiddio'r broses o'r dechrau i'r diwedd, er mwyn darparu effeithiolrwydd pellach.

### **Beth wnaethom ei ganfod am awdurdodau lleol Cymru?**


5.1.7 Mae rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau ar lein i'r cwsmeriaid allu cwblhau nifer o drafodion. Dim ond un awdurdod lleol sydd ddim darparu'r gallu i gwblhau trafodion ar lein.

5.1.8. Mynegodd yr holl awdurdodau lleol yr uchelgais i wneud cymaint â phosib o'u cysylltiad â'r dinesydd o ran trafodion ar lein, am ddau reswm; ar gyfer arbedion effeithiol ac i wella'r profiad i'r dinasyddion.

5.2.9. Mae meincnod digidol 'better connected' Socitm yn asesu gwefan pob awdurdod lleol yn y DU yn erbyn meini prawf penodol. Mae hyn yn cynnwys llwyddiant pan mae'r wefan yn galluogi dinesydd i gwblhau trafodion cyffredin megis "gwrthwynebu cais cynllunio", "rhoi gwybod am golli casgliad bin", neu "wneud cais am fathodyn glas". Rhoddid gradd sêr, ble mae pedair seren yn wych, ac un seren yn ddigidol anaeddfed. Mae'r modd y gall pobl rhannol ddall gael mynediad a llywio'r wefan, hefyd yn cael ei fesur. Mae chwe awdurdod lleol hefyd yn methu'r prawf hwn, a dau hefyd yn methu y prawf dyfeisiadau symudol. Mae mwy o fanylion yn rhan 'Dull' o'r adroddiad yma.

5.1.10. Yn yr arolwg blynyddol 2015/2016, mae awdurdodau lleol Cymru yn dangos aeddfedrwydd trafodion digidol tebyg iawn i weddill y DU, fel y gwelir yn Ffigwr 6.


*Ffigwr 6 Canran gradd sêr yr awdurdodau lleol am drafodion digidol yn 2015/2016*




5.1.11. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn raddol yn cynyddu eu graddau sêr. Fel mae'r blynyddoedd yn mynd heibio fodd bynnag, mae'r safon i gyrraedd pob category sêr yn codi, felly mae awdurdod lleol sydd yn gwneud dim gyda'u gwefan, yn debygol o ddisgyn yn y graddau sêr.

5.1.12. Mae'r cyfeiriad datblygiad awdurdodau lleol dros y pum mlynedd diwethaf yn fwy cyfnewidiol na hynny o weddill y DU ar y cyfan, fel y gwelir yn Ffigwr 7 a Ffigwr 8.

*Ffigwr 7 Cyfeiriad datblygiad awdurdodau lleol Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf*



*Ffigwr 8 Cyfeiriad datblygiad awdurdodau lleol y DU dros y 5 mlynedd diwethaf*



### **Pa gasgliadau gallwn ei gymryd o hyn?**

5.1.13. Mae digido mewn awdurdodau lleol wedi symud ymlaen cryn dipyn ers 1999 pan ddechreuodd Socitm Advisory Ltd y meincnod digidol. Adeg hynny, doedd gan 18% o awdurdodau lleol Cymru a 27% o awdurdodau lleol Lloegr ddim gwefan o gwbl.

5.1.14. Mae Socitm Advisory Ltd hefyd wedi mesur gallu'r wefan i addasu i ddyfais symudol o unrhyw faint. Mae chwech o'r 22 awdurdod lleol yn methu'r prawf hwn,

sydd yn ganran tebyg i weddill y DU, ond yn wael i ddinasyddion yr awdurdodau lleol hynny.

5.1.15. Gyda dim ond awdurdod lleol o Gymru yn derbyn pedair seren yn “better connected”, mae gwaith i’w wneud. Er hynny, ni fydd awdurdod lleol pedair seren hyd yn oed yn cyrraedd perffeithrwydd trafodion digidol. I ddinasydd awdurdod lleol Cymru, tydi’r gobaith a’r disgwyl am drafodion llyfn o’r dechrau i’r diwedd i unrhyw gais am wasanaeth, yn debyg i’r hyn sydd i’w gael yn y sector breifat, ddim yn cael ei ateb.

5.1.16. Mae hefyd yn gyfle i effeithlonedd “gwario i arbed” gael eu gwneud ym mhob awdurdod lleol Cymru gan ddigido trafodion dinasyddion yn llawnach.

5.1.17. Dylai mwy o awdurdodau lleol ystyried gweithredu dulliau digidol i helpu eu dinasyddion ddilyn eu cais gyda’r awdurdod lleol o un pen i’r llall gyda chyfrif ar-lein, diogel i’r dinesydd. Mae hyn hefyd yn gofyn am reoli hunaniaeth dinesydd, sydd yn cael ei ystyried yn y dimensiwn “clyfar gyda data” isod.

#### **Engbreiffiau o awdurdodau lleol Cymru yn dangos trafodion digidol da:**

5.1.18 yn 2016 lansiodd Ynys Môn ap ffôn clyfar o’r enw AppMôn, sydd yn galluogi’r dinesydd hysbysu’r awdurdod lleol am olau stryd wedi torri, neu dwll yn y ffordd, cael gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol, neu wneud cais am flychau ailgylchu, ymysg pethau eraill.

5.1.19. Mae gan Sir Fynwy 5,500 o breswylwyr wedi cofrestru i’w App Symudol ar gyfer dinasyddion.

5.1.20. Mae Torfaen wedi rhoi ar waith App gwasanaethau FyNghyngor i ddinasyddion.

5.1.21. Sir y Fflint yw’r unig awdurdod lleol yng Nghymru sydd â gradd ‘Better Connected’ pedair seren am eu gwefan dinesydd yn 2015/2016. Yn y gorffennol, mae Caerdydd hefyd wedi cael gradd pedair seren am eu gwefan. Mi fydd y ffigyrau am raddau 2016/2017 yn cael eu cyhoeddi’n fuan.

## 5.2. Dimensiwn 2: Arweiniad digidol



### Beth yw hyn?

5.2.1. Mae arweiniad digidol yn golygu sut mae awdurdod lleol yn mynd i'r afael â digidol ar lefel unigol, fframweithiol a strategol o fewn yr awdurdod lleol. Hwn yw'r llinyn aur digidol o gynlluniau corfforaethol a strategaethau trawsnewidiol hyd at strategaethau digidol, rhaglenni, prosiectau a chanlyniad penodol.

5.2.2. Yn yr adran hon, edrychwn ar:

- Sut mae digidol wedi ei wreiddio i mewn i strategaethau craidd
- Ble mae arweiniad digidol wedi ei osod o fewn yr awdurdod lleol
- Ble mae arweiniad digidol yn gorwedd, sut y mesurir ef a sut mae buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu
- Tystiolaeth o gydweithio rhwng awdurdodau lleol, partneriaid eraill a sectorau eraill
- Sut mae Arweinyddiaeth Uwch wedi gwneud cyfryngau cymdeithasol yn hygyrch i staff.

### Crynodeb o'n canfyddiadau

5.2.3. Mae dyheadau ar gyfer digidol yn uchel ond mae'r cynllunio strategol yn anghyson

5.2.4. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru â digidol wed ei wreiddio yn ei strategaethau craidd a chynlluniau. Mae rhai wedi dewis cyfuno eu strategaeth ddigidol a'u strategaeth TGCh. Nid oes gan rai ond ychydig neu ddim cyfeiriad at ddigidol mewn dogfennau strategaeth corfforaethol.

5.2.5. Mae swyddogaeth Uwch Arweinydd Digidol wedi ei neilltuo i unigolyn neu unigolion ym mhob awdurdod lleol. Weithiau, uwch arweinydd o fewn cyfarwyddiaeth sy'n ymwneud â dinasysddion. Weithiau swyddog TG ydyw sydd wedi dangos y gallu i weld y darlun corfforaethol. Nid oes gan yr un awdurdod lleol yng Nghymru Swyddog digidol ar lefel Cyfarwyddwr lle nad oes ganddynt gyfrifoldeb swyddogaeth arall.

5.2.6. Mae cyfran uchel o awdurdodau lleol yn cydweithio gyda phartneriaid sector gyhoeddus eraill. Mae'r fforymau hyn wedi arfer rhannu syniadau, dysgeidiaeth ac

yn cyflawni mentrau ar y cyd, ysbrydoliaeth gydweithiol. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n chwilio am feincnodau o arferion da o sectorau eraill.

5.2.7. Mae cyfran uchel o awdurdodau lleol yn ystyried y daw'r rhwystr allweddol i weithredu rhaglenni gweithio symudol a hyblyg gan reolaeth ganol.

5.2.8. Dim ond pump o'r 22 awdurdod lleol sy'n annog yn weithredol y staff i gydweithio gyda dinasyddion

5.2.9. Yn seiliedig ar yr adolygiad o strategaethau, cynlluniau a dogfennaeth arweinyddiaeth, ystyria Socitm Advisory Ltd nifer awdurdodau lleol Cymru ar y lefelau a ddangosir isod yn Ffigwr 9, o ran aeddfedrwydd arweinyddiaeth ddigidol.

*Ffigwr 9 Nifer yr awdurdodau lleol Cymru ar bob lefel o aeddfedrwydd arweinyddiaeth ddigidol*



### **Sut mae da yn edrych?**

5.2.10. Mae angen i ddigidol fod wedi ei wreiddio ar bob lefel o sefydliad er mwyn gwneud y gorau o'r budd a gynigir ganddo. Y buddion allweddol yw gostwng cost i wasanaethu a gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd lefelau uchel o wasanaethau cwsmeriaid yn eu tro yn gwella lefelau o foddhad staff a gostwng costau i wasanaethu. Bydd awdurdodau lleol da wedi gwreiddio amcanion digidol a mesurau o'r top i lawr ac o'r gwaelod i fyny ar draws y sefydliad ac wedi gwreiddio'r agenda digidol fel y flaenoriaeth allweddol. Bydd ganddynt mewn lle strategaeth hawdd a chllir sydd yn manylu ar ganlyniadau penodol gan gefnogi'r gwreiddio digidol o fewn y sefydliad, wedi ei gefnogi gan strategaeth ariannol tymor hir iach. Bydd y strategaeth ddigidol yn un hynod o hygyrch ac yn un a ddëllir gan staff ar draws yr awdurdod lleol. Bydd awdurdodau lleol da wedi ymuno â phartneriaid a sectorau eraill i ehangu eu dealltwriaeth o beth sy'n bosib gyda'r agenda digidol; gyrrir gan yr arweinyddiaeth uwch. Bydd galluogi i staff i ddefnyddio arfau cydweithio cyfryngau cymdeithasol yn fewnol a gyda dinasyddion yn gymorth i wella'r ffordd newydd hyn o

feddwl a gweithio yn y byd digidol. Bydd hyn yn gwella rheoli galw gan leihau costau i wasanaethu mewn sefydliadau sy'n dangos aeddfedrwydd gydag arweinyddiaeth ddigidol.

### **Beth wnaethom ei ganfod am awdurdodau lleol Cymru?**

5.2.11. Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol swyddogaeth sylweddol o Brif Swyddog Digidol; mae'r rhan fwyaf yn gweld digidol fel rhannu atebolrwydd ardraws ymrwymiad dinasyddiaeth, TG a thrawsnewid.

5.2.12. Mae'r rhan fwyaf o uwch arweinwyr digidol yr awdurdodau lleol hefyd yn Uwch Berchennog Risg-Gwybodaeth (SIRO)

5.2.13. Mae nifer o arweinyddiaeth ddigidol awdurdodau lleol yn gorwedd o fewn rôl uwch o fewn TG.

5.2.14. Dydi'r rhan fwyaf o strategaethau digidol awdurdodau lleol ddim yn manteisio ar yr agenda'n llwyr i'w llawn photensial. Maent gan fwyaf yn gryf, ar gynhwysiad digidol a newid sianel gyda chynigion trafodion digidol - yn awtomeiddio beth maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Ond dydyn nhw ddim yn aml yn gosod strategaeth i ddefnyddio data dinasyddion i lunio gwasanaethau neu wneud pethau gwahanol gyda digidol. Dyw cyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda dinasyddion gan ddefnyddio ymrwymiad digidol ddim yn nodwedd ac nid yw'r defnydd o ddata agored yn gyffredinol ddim yn fodd allweddol.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull strwythurol o'r top i lawr ddechrau eu menter trawsnewid ddigidol. Mae'r mentrau hyn yn gydnaws â chynllun busnes troswaol yr awdurdod lleol.

5.2.15. Mae blaenoriaethu mentrau digidol yn y rhan fwyaf o achosion yn cael eu hasesu ar eu henillion mewn buddsoddi (cyflawni effeithlonrwydd) a'r lefelau gwella darpariaeth gwasanaethau dinasyddion.

5.2.16. Mae gan nifer fawr o awdurdodau lleol drefn lywodraethol gadarn, strwythurol mewn lle megis Grŵp Llywio Ddigidol, Bwrdd Trawsnewid neu Fwrdd Newid i fonitro cyflawniad a'u henillion ar fuddsoddi ar brosiectau digidol.

5.2.17. Mae gan saith awdurdod lleol Strategaeth Ddigidol benodol. Mae gan wyth awdurdod lleol Strategaeth Ddigidol mewn drafft. Mae gan ddau awdurdod lleol Strategaeth Ddigidol wedi ei gyfuno gyda strategaeth arall megis TG neu Drawnewid. Nid oes gan bum awdurdod lleol Strategaeth ddigidol o gwbl.

5.2.18. Nid yw Strategaeth Ddigidol o reidrwydd yn arwain at brofiad ardderchog i'r dinesydd. Mae dau o'r awdurdodau lleol, er nad oes ganddynt Strategaeth Ddigidol wedi cynhyrchu gwefan drafodaethol sydd wedi graddio'n eithaf uchel â thair seren. Mae gan ddau awdurdod lleol Strategaeth Ddigidol gydlynol, wedi eu cysylltu â chynlluniau corfforaethol a strategaeth TGCh, gyda gweledigaeth ddigidol amlwg, ond sydd yn dal â gwefan un seren sy'n graddio'n isel.

5.2.19. Mae cydweithio wedi ei hen sefydlu mewn tri o'r awdurdodau lleol gan gaffael eu gwasanaethau TGCh Digidol o Wasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS) Cymru. Disgwylir i fwy i ymuno â'r trefniant cydweithio yma.

5.2.20. Tuedda ymarfer da cydweithiol a meincnodi ddigwydd gyda phartneriaid a sefydliadau ar draws Cymru. Mae peth meincnodi wedi ei wneud y tu allan i Gymru ond mae hyn yn eithaf cyfyngedig. Mae presenoldeb i ddigwyddiadau y tu allan i Gymru yn dueddol o fod yn isel oherwydd amser teithio a chostau.

5.2.21. Mae awdurdodau lleol yn gweld potential defnyddio gwefannau cymdeithasol fel arf i ymdrin â rheolaeth galw ar draws y gwasanaethau, fodd bynnag, nid yw pob grŵp arweinyddiaeth yn gweld hwn fel cyfle.

### **Pa gasgliad gawn ni gymryd o hyn?**

5.2.22. Daw Socitm Advisory Ltd i'r casgliad nad yw meddwl strategol gwych yn uniongyrchol yn golygu aeddfedrwydd digidol. Bydd arloeswyr digidol, ar bob lefel o'r sefydliad, yn palu ymlaen gyda chyflawni digidol, sut bynnag fo'r strategaeth yn edrych. Gellir cyflawni digidol digonol tameidiog heb brin ddim strategaeth a gyda rhai pobl angerddol. Ond er mwyn cyflawni rhagoriaeth ddigidol ddibynadwy, yn y ffordd fwyaf effeithiol, mae'n rhaid cael cyd-feddwl rhwng yr arweinyddiaeth uwch a'r ymarferwyr digidol. Mae angen tystiolaeth o strategaeth ddigidol yn cael ei wreiddio ar bob lefel ar draws yr awdurdod lleol. Nid yw digidol yn brosiect un tro yn unig, mae'n ffordd newydd o feddwl a chyflawni gwasanaeth i ddinasyddion. Ymddengys bod rhai timau rheoli awdurdodau lleol Cymru wedi cael gafael yn y dyfodol hwn yn fwy o ddifrif nag eraill.

5.2.23. Dylai awdurdodau lleol ystyried eu Uwch Arweinydd Digidol fel busnes yn hytrach nag fel cynrychiolydd TGCh. Mae TGCh yn swyddogaeth allweddol alluogi digidol, fodd bynnag, dylai nawdd ac amcanion busnes digidol gael ei berchnogi a'i reoli gan y busnes.

5.2.24. Dylai awdurdodau lleol gydweithio mwy y tu allan i Gymru a'r sector gyhoeddus er mwyn ennill mewnwelediad i siapio eu strategau digidol a'u syniadau.

5.2.25. Dylai'r defnydd o wefannau cymdeithasol ar sail strategol gael ei ystyried gan awdurdodau lleol i wella eu cydweithio ymhellach gyda dinasyddion a'u defnyddio i reoli galw trwy ragweld tueddiadau trwy wrando cymdeithasol, galluogi eu staff i gyflawni peth galwadau gwasanaethau dinasyddion trwy gyfryngau eraill megis Facebook.

5.2.26. Mae newid cymdeithasol mewnol yn allweddol i alluogi staff i weithio a meddwl yn wahanol mewn byd digidol. Mae llawer o staff yn defnyddio arfau digidol yn eu bywydau personol megis archebu gwyliau, gwneud ymholiadau, talu am fil. Dylai awdurdodau lleol ystyried hyn pan yn uwchsgilio eu staff mewn digidol. Mae disgwyliadau am sgiliau digidol i staff newydd a staff presennol yn wahanol a bydd yn wahanol yn y dyfodol. Dylai awdurdodau lleol ystyried hyn wrth siapio eu pecynnau dysgu a datblygu i staff, ac wrth osod eu meini prawf recriwtio.

5.2.27. Mae'n rhaid ystyried rhaglen newid cymdeithasol wedi ei thargedu at reolwyr canol, i'w cynorthwyo yn y newid o reolaeth drwy "bresenoliaeth" a chyfri'r oriau a weithiwyd yn y maes, i reolaeth trwy ganlyniadau ac allbynnau, gan alluogi staff i weithio yn fwy hyblyg a gyda mwy o rymuster.



## **Engbreiffiau o awdurdodau lleol Cymru yn tystiolaethu arweinyddiaeth ddigidol**

5.2.28. Mae un arweinydd awdurdod lleol yn gweithredu fel siopwr dirgel i bwysleisio i'w staff y gwelliannau yn eu darpariaeth ddigidol

5.2.29. Mae Sir Fflint wedi cyhoeddi strategaeth ddigidol a elwir "Sir Fflint Ddigidol - Yn Cefnogi Cyngor Modern ac Effeithiol" Mae hyn yn gosod y strategaeth ddigidol mewn ffordd hygyrch, o amgylch y themâu o Weledigaeth Ddigidol, Cwsmer Digidol, Gweithlu Digidol, Cymuned a Busnes Digidol, Partneriaeth Ddigidol, Rheoli Gwybodaeth, Darpariaeth Ddigidol a Threfniadaeth Lywodraethol. Mae Cynllun gwelliannau Corfforaethol Sir Fflint 2015/16 yn cynnwys mesurau ar gyfer "Gwasanaethau cymryd rhan yn ddigidol". Dyw ddim yn syndod, gyda'r lefel hwn o arweinyddiaeth ddigidol, wedi ei gyfuno gydag adnoddau digidol, ffocws ac ymrwymiad trwy gydol y timau cyflawni, fod Sir Fflint wedi llwyddo i gyrraedd safle digidol uchaf ymysg awdurdodau lleol Cymru, gyda gwefan bedair seren ar gyfer dinasyddion - "cyswllt gwell".

## 5.3. Dimensiwn 3: Clyfar gyda data



### Beth yw hyn?

5.3.1. Mae'r defnydd o ddata clyfar yn golygu casglu'r data cywir mewn ffordd hygyrch a gwneud penderfyniadau ar sail gyda hyn. Mae hefyd ynglŷn â gwneud data agored ar gael i ddinasyddion a busnesau i'w treulio.

5.3.2. Mae'r defnydd o ddata clyfar yn cynnig cyfle i'r awdurdod lleol ddefnyddio eu data i reoli galw yn fwy effeithiol. Gellir cyflawni trwy uno data dros eu hawdurdod lleol a rhannu data gyda phartneriaid eraill y sector gyhoeddus.

5.3.3. Mae yna nifer o enghreifftiau o ddefnyddio data clyfar i wella cyflawniad gwasanaeth ond mae'r rhain yn fwy cyffredin yn y sector breifat nag yn y sector gyhoeddus.

5.3.4. Yn yr adran hon edrychwn ar:

- Os yw'r defnydd o benderfyniadau ar sail deallusrwydd yn gyffredin yn yr awdurdod lleol gyda mynediad hawdd i ddata dinasyddion
- Os oes darpariaeth cyfrif ar-lein i ddinasyddion sy'n rhoi mynediad saff a diogel.
- Sut mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio o amgylch angen a data dinasyddion, a defnyddio dealltwriaeth busnes ar draws yr awdurdod lleol, nid yn unig yn ynysig mewn sefydliadau.
- Os yw data yn cael ei wneud yn agored a hygyrch, yn fwy na'r disgwyl.
- Mesur hydwythedd lefel uchel sylfaenol ddiogelwch seibr mewn llywodraeth leol trwy sefydlu'r risg gyfredol a chynlluniau i'r dyfodol i rwystro ymosodiad i'r dyfodol

### Crynodeb o'n canfyddiadau:

5.3.5. Dyma faes mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn dod iddi wedi'r cydrannau digidol eraill wedi aeddfedu. Yng Nghymru mae aeddfedrwydd data yn isel, ond mae'r awydd yn uchel ac mae yn awr gyfleodd sylweddol i fod yn fwy clyfar gyda data, gyda photensial ar lefel genedlaethol.

5.3.6. Mae'r rhan fwyaf o ddata yn cael ei reoli mewn tyrau ynysig gan bob adran o fewn yr awdurdod lleol. Nid oes enghreifftiau amlwg o gynllunio gwasanaeth yn sgil data yn y canfyddiadau ymchwil. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cyfrif ar-lein


i'w dinasyddion, fodd bynnag dim ond swm bychan o wasanaethau trafodaethol a ddarperir trwy hyn.

5.3.7. Mae diffyg cyson mewn diogelwch dinasyddion, a gwiriad adnabyddiaeth dinasyddion ar-lein, gan ei gwneud hi'n anodd er enghraifft i sicrhau mai Mrs A Jones yw'r un â Mrs Annette Jones. Nid oes tystiolaeth amlwg o ddarlun cyflawn yn cynnwys agwedd gyfrannol a phenderfynu ar sail deallusrwydd ar draws y 22 awdurdod lleol.

5.3.8. Mae aeddfedrwydd gyda data yn asesiad goddrychol, ond mae pob awdurdod lleol yn rheoli eu data gan dynnu dealltwriaeth ohono i raddau llai neu helaethach. Maent i gyd yn cydnabod y potensial i weithio yn fwy clyfar gyda data ymhellach. Ar yr hunanasesiad aeddfedrwydd digidol dywed y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod "data mawr" yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i yrru penderfyniadau yn fwy cyflym a chynllunio gwasanaeth.

5.3.9 Oherwydd y rhesymau hyn, mae Socitm Advisory Ltd yn asesu (gweler Ffigwr 10) yr awdurdodau i fod ar ail neu drydydd lefel ar ysgol aeddfedrwydd data - sydd yr un fath â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

*Ffigwr 10, Nifer awdurdodau lleol Cymru sydd ar bob un lefel o aeddfedrwydd "clyfar gyda data"*



5.3.10. Mae pob awdurdod lleol yn cydnabod y cynnydd ym mygythiad seiberddrosedd, ac yn neilltuo cryn dipyn o adnoddau tuag at ei oresgyn. Mae gofyn i awdurdodau lleol gyrraedd safonau seibrddiogelwch llym iawn i allu cymryd rhan yn y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN) gorfodol, gan ro i lefel gyson o ar draws awdurdodau lleol Cymru a'r DU i liniaru'r peryg o fygythiad seibr.

## **Sut mae da yn edrych?**

5.3.11. Y ddealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau dinasyddion yw un o'r mewnwelediadau fwyaf grymus sydd gan awdurdodau lleol er mwyn darparu gwasanaethau wedi eu targedu i gwrdd ag anghenion dinasyddion. Dylai awdurdodau lleol da ddefnyddio data (sy'n ddarostyngedig i ganllawiau gwarchod data) i adeiladu a rhagweld galw am eu gwasanaethau, ar draws gwasanaethau. Mae gan awdurdodau'r gallu i gysylltu eu data a darparu adwy sengl i'w dinasyddion gyda gwybodaeth wedi ei dargedu yn arbennig ar gyfer eu hanghenion.

5.3.12. Byddai cysylltu defnydd y data gyda'u partneriaid cyflawni yn darparu awdurdodau lleol gyda mewnwelediad mwy a'r gallu i fodelu'r galw er mwyn gostwng eu costau i wasanaethu. Bydd awdurdodau lleol datblygedig wedi rhannu data ar draws proses fusnes sydd wedi eu rhannu gyda sefydliadau eraill, megis llwybrau iechyd a chymdeithasol, er mwyn lleihau costau a gwella profiad y cwsmer.

5.3.13. Yn ogystal, bydd sefydliadau aeddfed yn flaengar gyda'r ddarpariaeth o "ddata agored" er mwyn galluogi dinasyddion i adeiladu eu cynnyrch data a mewnwelediad, gan alluogi gwell tryloywder a chyfleoedd economaidd. Mae'r cysyniad o ddata agored o fewn awdurdodau lleol yn rhagolwg cyffrous. Mae'r gallu i wthio peth data i fod ar gael i bawb i ddefnyddio a'i ailargraffu fel y myn heb gyfyngiadau yn gyfle sy'n newid y darlun i awdurdodau lleol. Trwy ddarparu data a gwybodaeth leol i'w hardal gall dinasyddion fod yn fwy gwybodus yn eu penderfynu a lleihau'r galw a osodir ar eu hawdurdod. Bydd awdurdodau lleol datblygedig yn gwthio'r ffiniau gyda rhannu data.

5.3.14. Bydd awdurdodau lleol gydag aeddfedrwydd data uchel yn rheoli data ar lefel gorfforaethol, â golwg unigol o'r cwsmer, yn annibynnol o dyrau ynysig adrannau ac yn gallu rheoli adnabyddiaeth dinasyddion. Bydd Deallusrwydd Busnes Corfforaethol yn flaenoriaeth allweddol i awdurdodau lleol aeddfed.

## **Beth wnaethom ei ganfod am awdurdodau lleol Cymru?**

5.3.15. Mae Deallusrwydd Busnes yn gyffredinol yn cael ei rannu o fewn tyrau ynysig adrannol - os caiff ei rannu o gwbl.

5.3.16 Ni wnaeth un awdurdod wirfoddoli i fod yn rhan o'r GDS (Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth) peilot gwiriad dinesydd i awdurdodau lleol y DU. Mae'r pedwar awdurdod lleol ar bymtheg sy'n cymryd rhan yn y peilot i gyd o Loegr. Mae'r peilot yma yn gwasgaru cynnyrch gwarantu hunaniaeth y GDS (IDA) o'r enw *Verify*. Roedd rhesymau'r awdurdodau lleol Cymreig dros beidio â gwirfoddoli i beilot *Verify* y GDS yn gymysg gan amrywio o beidio â chael y gallu i ymroi i'r peilot, i beidio â bod yn ymwybodol neu eisiau aros i fersiwn fwy aeddfed o'r cynnyrch.

5.3.17. Mae Data Agored yn cael ei ddeall gan rhai unigolion yn frwdfrydig yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, ac mae peth cydnabyddiaeth o werth data agored wrth yrru'r economi gwybodaeth ranbarthol. Fodd bynnag, nid yw darparu data agored yn flaenoriaeth allweddol.

5.3.18. Bydd awdurdodau lleol yn gwneud data mae ganddynt fandad i ddatgelu, ar gael, ond nad oes ganddynt yr adnoddau i flaenoriaethu cyhoeddi eu data ansensitif

mewn safonau agored. Mae'r nifer uchaf o geisiadau menter yn gwneud hyn yn sialens i'w gyflawni.

5.3.19. Mae yna archwaeth sylweddol am fwy o waith gyda chloddio am ddata ym mhob awdurdod lleol. Dywed yr awdurdodau lleol eu bod wedi ymchwilio i byrth cyfrif caffael dinesydd unigol ac arfau cloddio data, ond iddynt ganfod fod costau caffaeliad yn ormod o rwyst, ymron ymhob achos.

5.3.20. Mae pob awdurdod lleol yn ystyried fod hyn yn faes lle y gall Llywodraeth Cymru helpu. Mae dinasyddion yn aml yn byw mewn un llywodraeth leol ond yn gweithio a theithio trwy awdurdodau eraill a gall rheoli rhyngweithiad cychwynnol dinesydd ar lefel cenedlaethol fod yn fodel dilys. Gall hyn gynnwys cydweithio gwiriad dinesydd, pyrth dinesydd, warws ddata a deallusrwydd busnes ar draws awdurdodau lleol Cymru.

5.3.21. Tra na elli byth gael amddiffyniad 100% anhreiddiadwy yn erbyn seibrdroedd, mae Socitm Advisory Ltd yn cynghori fod gofynion diogelwch y PSN o leiaf yn ateb y dibenion.

5.3.22. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol â risgiau bygwth seibr wedi eu gosod ar lefel isel oherwydd gyda chanllawiau PSN, mae ganddynt ddulliau lliniaru mewn lle i leihau'r risg ar y lefel yma.

5.3.23. Nid yw pedwar awdurdod lleol yn adrodd bygythiadau seibr ar eu cofrestr risg corfforaethol. Mae hyn oherwydd caiff bygythiadau eu hystyried yn erbyn lliniariad, ac mae hyn yn rhesymol i ddisgwyl, felly nid oes rhaid wrth gynnydd. Disgwylia Socitm Advisory Ltd fod pob awdurdod lleol â phroffil risg ac amddiffyniadau eraill mewn lle. Os nad ydynt wedi methu'r achrediad PSN, mae'n fwy tebygol fod yr esboniad am yr amrywiaeth yn y gofrestr gwybodaeth i'w wneud gyda dehongliad lleol na lefelau risg data gwirioneddol.

5.3.24. Allan o'r 22 awdurdod lleol, mae 17 yn disgrifio'r statws risg o fygythiadau seibr yn eu sefydliad yn isel.

### **Pa gasgliadau allwn ni ei gymryd o hyn?**

5.3.25. Mae yna awydd sylweddol i gyflawni datrysiad cydweithiol i reoli data dinasyddion a chyflawni mewnwelediad dinasyddion.

5.3.26. Yn ogystal â gwiriad dinasyddion, mae yna anghenraid cyffredinol (sydd gan fwyaf heb ei gyflawni) i awdurdodau lleol i dynnu mewnwelediad sylweddol am eu dinasyddion o'u data.

5.3.27. Mae yna gyfle i ymchwilio i reoli hyn gyda chronni ar lefel dinasyddiaeth Gymreig, yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol unigol. Byddai prosiect o'r math yn gallu tynnu costau i lawr ac yn cyflawni mwy o fewnwelediad dinesydd, gan fod dinasyddion yn rhyngweithio gyda mwy nag un awdurdod lleol.

5.3.28. Mae yna gyfle i gefnogi ac annog awdurdodau lleol i symud tuag at agwedd data agored wir werthfawr. Byddai data agored o'r math yn gallu hysbysu cynllunio ac adfywiad o bersbectif sector gyhoeddus a darparwr masnachol.

5.3.29. Mae yna gyfle i awdurdodau lleol i gynyddu mewnwelediad yn y defnydd o ddata agored mewn perthynas â lleihau'r galw, er cymorth i bwysau arbedion y dyfodol.


5.3.30. Mae awdurdodau lleol Cymru yn cymryd bygythiadau seibr o ddifrif gan osod mewn lle lliniariad risg. Mae angen cydbwysedd ymarferol rhwng hyblygrwydd busnes a chyfyngiadau diogelwch, ac yn benderfyniad mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei gymryd. Pa bynnag fesurau sydd mewn lle ymhob awdurdod lleol, ni ddylai fod llawer dwylo, oherwydd bod yr hinsawdd risg seibr yn newid yn ddyddiol ac ni fydd fyth 100% o sicrwydd o amddiffyniad rhag bygythiadau seibr. Mae cydymffurfio gyda Pencadlys Cyfathrebu Llywodraethu y DU (GCHQ) /CESG PSN "côd cyswllt" (yn awr o dan adain y Ganolfan Ddiogelwch Seibr Cenedlaethol) yn arwyddbost fod diogelwch seibr cryf mewn lle. Trwy ddangos cydymffurfio gyda PSN, mae awdurdodau lleol Cymru wedi dangos sefyllfa gwrthsafiad seibr cyffelyb i gyrff sector gyhoeddus eraill trwy'r DU.

### **Enghreifftiau o awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio data clyfar**

5.3.31. Mae Casnewydd yn defnyddio data clyfar i wthio gwybodaeth berthnasol i geisiadau rhyddid gwybodaeth.

5.3.32. Mae Caerfyrddin yn gweithio gyda sefydliad "Automated Intelligence" sy'n cynnal adroddiadau ar eu data distrwythur i gefnogi eu ahchos i bolisi dargadwedd data ac anghenion gallu/leihau i symud ymlaen.

## 5.4 Dimensiwn 4: Dylunio i ganolbwyntio ar y dinesydd



### Beth yw hyn?

5.4.1. Mae dyluniad sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn edrych ar sut mae'r dinesydd a'r data am y dinesydd yn trwytho dyluniad y gwasanaeth i'r dinesydd. Pan fo'r gwasanaeth digidol yn cael ei ddylunio o safbwynt y dinesydd, ac nid beth mae'r awdurdod lleol yn credu eu bod angen. Mae hefyd yn golygu fod cyfryngau cymdeithasol a thechnegau digidol perthnasol hefyd yn cael eu defnyddio i gyd-ddylunio'r gwasanaeth.

5.4.2. Mae digidol yn cynnig cyfle i'r awdurdodau lleol ddylunio eu gwasanaeth yn canolbwyntio mwy ar y dinesydd. Gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio mwy o'r wybodaeth sydd ar gael yn ddigidol, er enghraifft, data ar ddinasyddion, ac wrth i'r llywodraeth leol ddylunio'r gwasanaeth yn unol â hyn, neu drwy gymryd ymdriniaeth cyd-gynhyrchu a defnyddio arfau megis cyfryngau cymdeithasol i alluogi dinasyddion gymryd rhan wrth ddylunio'r gwasanaethau.

5.4.3. Mae nifer o enghreifftiau o ddigidol yn helpu i greu dyluniadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, ond mae'r rhain yn fwy amlwg yn y sector breifat nag yn y sector gyhoeddus. Mae defnyddio data ar ddinasyddion a dylunio yn unol â hyn yn fwy cyffredin na chymryd ymdriniaeth cyd-gynhyrchu, er mae enghreifftiau o hyn.

5.4.4. Yn yr adran yma, edrychwn ar:

- Ffyrdd o fynd ati i ymdrin â gwasanaethau digidol, a'r graddau sydd angen ail-ddylunio gwasanaeth ag ymdriniaeth yn ymwneud â'r defnyddiwr
- Defnyddioldeb a hygyrchedd y gwasanaethau
- Y defnydd o ddeallusrwydd o'r cyfryngau cymdeithasol a ffynonellau eraill i roi gwybodaeth i'r gwasanaeth.
- Y nifer sy'n cymryd rhan gyda chyfryngau cymdeithasol.


### Crynodeb o'n canfyddiadau

5.4.5. Rydym wedi gweld cynnydd graddol yn y defnydd o ddyluniad gan ganolbwyntio ar y dinesydd gan awdurdodau lleol, ond mae'r ymchwil hwn yn dangos fod y rhan fwyaf o'r rhain yn canolbwyntio ar symud trafodion ar-lein i'r wefan. Yn hytrach nag ail-ddylunio'r gwasanaeth cyfan, mae prosesau â llaw yn cael eu cynrychioli, ac yn cael eu cynnig ar y we. Dyma'r prif ffocws i'r rhanfwyaf o awdurdodau lleol, gan ei fod yn cyflawni arbedion tymor byr.

5.4.6. Er bod dealltwriaeth gref am yr angen am ail-ddylunio taith y dinesydd o un pen i'r llall, er mwyn cyflawni effeithiolrwydd ar draws y swyddogaethau i gyd, nid oes llawer o dystiolaeth o ail-ddylunio a newid y broses o'r dechrau i'r diwedd. Mae Socitm Advisory Ltd yn asesu lefel aeddfedrwydd digidol Dyluniadau sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, ac yn gweld iddynt fod oddeutu lefelau un i dri, fel y gwelir yn Ffigwr 11.

5.4.7. Mae gan bob awdurdod lleol ffrwd trydar, ac maent yn defnyddio arfau cyfryngau cymdeithasol eraill megis Facebook. Mae gan awdurdodau rhwng 5,000 a 37,00 o ddilynwyr trydar (fel y gwelir yn Atodiad D). Mae nifer dilynwyr trydar y dinesydd yn yr awdurdod lleol yn debyg i'r hyn ar draws y DU.

*Ffigwr 11 Awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd digidol dylunio yn canolbwyntio ar y dinesydd*



### **Sut mae da yn edrych'?**

5.4.8. Pan fo ail-ddylunio yn ymateb i'r dinesydd yn cael ei ddefnyddio, yr agwedd orau yw edrych o safbwynt y dinesydd i ddeall yn iawn sut, pryd a pham mae cwsmer angen cysylltu gyda'r awdurdod lleol, gelwir hyn yn cyd-ddylunio. Mae'r Llywodraeth Ganolog a rhai awdurdodau lleol yn mabwysiadu fframwaith dylunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDLI) i ail-ddylunio eu gwasanaeth digidol o amgylch anghenion y dinesydd, ac nid o amgylch anghenion yr awdurdod lleol. Mae GDLI wedi gosod Egwyddorion Dylunio Digidol i holl gyrff cyhoeddus y DU.

<https://www.gov.uk/design-principles>. Mae'r agwedd yn gwella lefel boddhad y dinesydd ac yn cynyddu effeithiolrwydd. Rhai enghreifftiau da o ddefnyddio agwedd



GDLI yw gwneud cais ar lein am dreth car ac adnewyddu passport. Mae GDLI wedi ennill gwobrau am y dull dylunio maent wedi ei ddatblygu.

### **Beth wnaethom ei ganfod am awdurdodau lleol Cymru?**

5.4.9. Ni wnaeth y prosiect ymchwil yma ddod o hyd i unrhyw awdurdod lleol yn defnyddio'r dull GDLI. Er hynny, mae ymwybyddiaeth o'r defnydd a wneir ohono yn y Llywodraeth Ganolog gan sawl awdurdod lleol, a'r awydd i fabwysiadu'r ffordd yma o ail-ddylunio gwasanaethau. Er hyn, does gan yr awdurdodau lleol mo'r wybodaeth na'r gallu i fabwysiadu'r dull yma.

5.4.10. Un o brif amcanion yr awdurdodau lleol yw symud trafodion ar lein i'r wefan. Mae prosesau sydd angen eu gwneud â llaw yn cael eu cynrychioli, ac ar gael ar y we. Mae hyn yn ganolbwynt i'r rhanfwyaf o awdurdodau lleol gan ei fod yn cyflawni arbedion tymor byr. Fodd bynnag, does dim llawer o dystiolaeth o ail-ddylunio a newid y broses o'r dechrau i'r diwedd.

5.4.11. Mae dealltwriaeth dda am yr angen i ail-ddylunio taith y dinesydd "o un pen i'r llall" er mwyn darparu effeithiolrwydd ar draws yr holl swyddogaethau o'r dechrau, canol a chefn swyddfa.

5.4.12. Mae gan rhai awdurdodau lleol grwpiau ffocws digidol i ddinasyddion neu ddefnyddio staff i brofi newidiadau digidol.

5.4.13. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau hyblyg ar gyfer prosiectau datblygu digidol, tra nad ydi eraill yn cynnal prosiectau datblygu o gwbl gan eu bod yn creu canlyniadau digidol gan drydydd parti. Mae hyblyg yn ffordd dda o gyflawni dyluniadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd oherwydd gellir cael prototeip cyflym i adolygu gyda dinesyddion, ac addasu eu hanghenion. Mae Tabl 2 yn dangos y gwahanol broesau hyblyg sy'n cael eu defnyddio mewn awdurdodau lleol.

*Tabl 2 Dulliau ail-ddylunio prosesau busnes mewn awdurdodau lleol Cymru*

| <b>Dulliau proses busnes</b> | <b>Nifer yr awdurdodau lleol</b> | <b>Dull datblygiad digidol</b> | <b>Nifer yr awdurdodau lleol</b> |
|------------------------------|----------------------------------|--------------------------------|----------------------------------|
| Meddwl trwy systemau         | 2                                | Hyblyg                         | 4                                |
| Dylunio drwy'r dinesydd      | 3                                | "Prince" - Tywysog             | 1                                |
| Main                         | 4                                | Arall                          | 7                                |
| BPR                          | 2                                | Dim dull amlwg                 | 10                               |
| Dim                          | 3                                |                                |                                  |
| Arall                        | 8                                |                                |                                  |

5.4.14. Mae un awdurdod lleol yn y broses o wasgaru arf digidol i dynnu sylw at sgysiaau agored ar y cyfryngau cymdeithasol (yn benodol ar Facebook a Trydar), sy'n cyfeirio at y cyngor a'i wasanaethau. Trwy ddefnyddio hyn, mae'n gobeithio y daw i ddeall anghenion y dinesydd yn well.

5.4.15. Nid yw syniadau ar 'gyd-gynhyrchu' gwasanaethau wedi eu datblygu'n llawn, nac yn cael eu cydnabod fel y nodir uchod yn y rhan sy'n disgrifio Dylunio sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

5.4.16. Mae Socitm Advisory Ltd yn ystyried fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gysylltu gyda dinesyddion a rhanddeiliaid eraill wedi sefydlu'n dda gan awdurdodau lleol Cymru. Gan amlaf, mae'n cael ei ddefnyddio fel ffordd o ddweud pethau wrth bobl, ond hefyd, mae'n cael ei ddefnyddio i sefydlu beth yw 'llais y dinesydd'. Er bod cryn dipyn o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol, nid oes tystiolaeth fod cyfryngau cymdeithasol yn arwain cyd-gynhyrchu i gyfeiriad strategol ar gyfer unrhyw un o awdurdodau lleol Cymru.

5.4.17. Mae awdurdodau lleol yn gweld y cyfleoedd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mwy fel arf i ddelio â rheoli'r galw ar draws gwasanaethau.

5.4.18. Mae awdurdodau lleol unai yn defnyddio neu'n annog y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gyda staff, gydag ond ychydig wedi gwahardd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gyda staff, ar wahân i ganiatâd penodol sydd yn cael ei amlinellu yn Nhabl 3.

*Tabl 3 Polisiâu Cyfryngau Cymdeithasol i Staff*

| Polisi Cyfryngau cymdeithasol i Staff (swyddogion) | Nifer yr awdurdodau lleol |
|----------------------------------------------------|---------------------------|
| Yn cael ei ddefnyddio'n weithredol                 | 11                        |
| Yn cael ei annog                                   | 5                         |
| Yn cael ei oddef                                   | 4                         |
| Yn cael ei wahardd                                 | 2                         |

5.4.19. Mae ffrwd trydar y cyngor corfforaethol yn cael eu defnyddio'n helaeth, gydag ymateb da gan ddinesyddion, busnesau a rhanddeiliaid eraill y cyngor. Mae'r gymhareb rhwng nifer o ddilynwyr trydar gyda phoblogaeth yr awdurdod lleol yn fesur da o ba mor llwyddiannus ydi gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol y cyngor hwnnw. Mae rhif is yn dynodi mwy o gymryd rhan gyda chyfryngau cymdeithasol. Mae Atodiad D yn egluro dilyniant trydar yn ôl maint poblogaeth Cymru. Tra bod busnesau ac unigolion tu allan i'r awdurdod lleol yn dilyn ffrwd trydar Cyngor, yn fras gellir dehongli'r ffigyrau fel tua "un mewn naw o ddinesyddion Blaenau Gwent yn dilyn eu ffrwd Trydar", er enghraifft (cymhareb o 1:9). Mae cymarebau hyn yn debyg i awdurdodau lleol eraill ar draws y DU. Maent yn cymharu'n ffafriol â ffrydiau trydar cenedlaethol fel gov.uk, ble mae'r gymhareb tu a 1:54 neu CThEM ble mae'r gymhareb tua 1:181.

5.4.20. Mae allgau digidol yn cymryd rhan yn y ffigyrau hyn hefyd. Er enghraifft, Caerdydd sydd a'r cynhwysiad digidol uchaf, a'r gymhareb dilynwyr trydar uchaf hefyd.

5.4.21. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn gweld cyfle i ddatblygu eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gydweithio ymhellach gyda dinasyddion. Maent hefyd yn rhagweld defnyddio arfau cyfryngau cymdeithasol i hysbysu am ail-ddylunio gwasanaeth, a darparu gwell cipolwg i anghenion dinesydd. Mae nifer o ddinesyddion yn holi am wasanaethau neu wneud cwyn dros Trydar, sydd yn creu problemau i'r Cyngor gan nad oes gan amlaf ddigon o wybodaeth mewn neges trydar i reoli a chwblhau'r cais.

5.4.22. Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o egwyddorion dylunio GDLI, ond nid ydynt wedi eu dilyn yn benodol yn eu dyluniadau digidol. Mae elfennau o'r egwyddorion yn amlwg yn eu cynnyrch digidol.

5.4.23. Mae meincnod "Better Connected" Socitm Advisory Ltd yn asesu dyluniad, ac yn adlewyrchu hyn wrth fesur hygrychedd. Ar hyn o bryd, mae hyn wedi ei gyfyngu i nifer y cliciau mae'n cymryd i, ddod o hyd i rywbeth ar y wefan, heb fynd i asesiad effeithiolrwydd prosesau digidol mwy cymhleth.

5.4.24. Yn ychwanegol i hyn, mae Socitm Ltd yn mesur gallu'r wefan i addasu ar gyfer dyfeisiadau symudol - sydd yn alw cynyddol gan ddinasyddion.

#### **Pa gasgliadau allwn i gymryd o hyn?**

5.4.25. Mae'n amlwg fod awdurdodau lleol Cymru yn meddwl am brofiad y dinesydd wrth ddatblygu gwasanaethau digidol, ond nad ydynt eto wedi llwyddo i gyrraedd y lefelau mwy soffistigedig o ddyluniadau yn canolbwyntio ar y dinesydd.

5.4.26. Mae'n nodedig fod chwe awdurdod lleol wedi methu'r prawf hygrychedd, ac mae pedwar awdurdod lleol arall yn methu y prawf dyfeisiadau symudol. Asesir y 10 awdurdod lleol yma i fod ar y lefelau isaf o aeddfedrwydd digidol.

5.4.27. Mae Socitm Advisory Ltd yn ystyried defnydd cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â dinesyddion a rhanddeiliaid eraill wedi sefydlu yn dda yn awdurdodau lleol Cymru. Gan amlaf, mae'n cael ei ddefnyddio i ddweud pethau wrth bobl, ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i sefydlu 'llais y dinesydd'.

#### **Enghreifftiau o awdurdodau lleol Cymru yn dangos dyluniadau da yn canolbwyntio ar ddinesyddion:**

5.4.28. Mae Sir Benfro yn gyrru defnydd digidol drwy ddefnyddio cymhelliad ariannol. E.e. rhatach i gael gwastraff gardd yn ddigidol Nhaf ydi wrth 'gerdded i mewn i ganolfan.' Maent hefyd wedi dechrau system cinio di-arian i ddisgyblion.

5.4.29. Mae Abertawe wedi gwreiddio rhai o egwyddorion GDLI i'w proses gwella busnes, e.e. cyd-gynhyrchu gyda'u defnyddwyr i drwytho ail-dduniad eu gwasanaeth.

## 5.5. Dimensiwn 5: Cynhwysiant Digidol



### Beth yw hyn?

5.5.1. Mae cynhwysiant digidol, neu yn hytrach lleihau allgau digidol, yn golygu fod rhaid sicrhau fod gan ddinasyddion y gallu i ddefnyddio'r we i wneud pethau er eu budd hwy o ddydd i ddydd. Yn y cyd-destun yma, mae'n cyfeirio at wasanaethau awdurdodau lleol y gall busnesau a dinasyddion gael mynediad iddynt mewn ffyrdd digidol.

5.5.2. Mae mesur allgau digidol yn deillio o fesur technoleg ddigidol (er enghraifft cyflymder band eang), a mesurau cymdeithasol, er enghraifft addysg ac iechyd.

5.5.3. I awdurdod lleol, gall cynhwysiant digidol gynnwys cyfres o weithrediadau mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i ddarparu mynediad i wasanaeth pan fo dinesydd yn methu gwneud hynny drwy ffyrdd digidol.

5.5.4. Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar:

- Sgôr hygyrchedd digidol ar gyfer pob awdurdod lleol.
- Ffordd o fynd ati i ymdrin â lleihau lefel y diffyg cynnwys digidol

### Crynodeb o beth wnaethom ei ganfod

5.5.5. Mae ffocws penodol ar gynnwys digidol, a sicrhau fod gan y dinesydd y modd, pan fo'n bosib, i wneud pethau ar y we. Ategir hyn gan Fframwaith Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru.

5.5.6. Mae allgau digidol yng Nghymru yn debyg i'r Alban, ond yn uwch na Lloegr. Tra bod yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r farchnad yn gneud beth allant i wynebu'r gwaith, mae'n parhau yn bwysau drud.

5.5.7. Mae gan rhai ardaloedd yng Nghymru lefelau uchel o allgau digidol, tra bod rhai ardaloedd â lefelau mwy cymedrol. Mae asesiad Socitm ar aeddfedrwydd Cynhwysiant Digidol yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan y canlyniad fel y mynegir gan ddata *Dot everyone*. Er mwyn symleiddio i'r pum lefel o aeddfedrwydd digidol, mae wedi ei gategoreiddio fel 9, ag 8 at lefel 1 ac yn y blaen. Mae Ffigwr 12 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd Cynhwysiant Digidol yn dangos hyn.

*Ffigwr 12 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd Cynhwysiant Digidol*




### **Sut mae da yn edrych'?**

5.5.8. Mae'r we wedi trawsnewid bron pob agwedd o fywyd cyhoeddus, preifat, a gwaith. Mae wrth wraidd economi y DU; o newid y ffordd mae pob gweithle yn cyfathrebu i greu diwydiannau newydd sbon. Mae'n ailffurfio llywodraeth ddrwy wella gwasanaethau cyhoeddus, a gwella tryloywder drwy ddata agored. Er hyn, nid rhoi mynediad i'r we i'n dinasyddion yw'r unig amcan, mae'n rhoi'r sgiliau, y cymhelliad a'r hyder i'r DU gyfan, i wneud pethau ar lein, ac i fod yn fedrus ar lein i wneud y mwyaf o'r we. Ni all unrhyw awdurdod lleol neu sefydliad wneud hyn ar ei ben ei hun, rhaid i hyn gael ei wneud mewn partneriaeth ar draws pob sector i'w wneud yn llwyddiant. Mi fydd awdurdodau lleol da yn sicrhau eu bod yn mynd at i ddelio â hygyrchedd (drwy Fentrau rwydwaith seilwaith, yn ogystal â gwneud offer ar gael), sgiliau, cymhelliad a hyder i wneud y gorau o'u lefel o gynhwysiant digidol. Mi fyddant yn gwybod ble mae'r problemau gyda chynhwysiant digidol, yn deall ble mae tarddiad y broblem, ac yn cymryd camau i wynebu'r gwaith. Mi fyddant yn sicrhau cynhwysiant digidol ar gyfer eu staff, yn ogystal â dinasyddion gan roi'r gallu iddynt gael y sgiliau cywir a'r arfau cywir i wneud eu gwaith mewn ffordd fwy digidol effeithlon.

### **Beth wnaethom ei ganfod yn awdurdodau lleol Cymru?**

5.5.9. Mae Socitm Advisory Ltd yn cyfeirio at fesurau allgau digidol a map gwres 'Dot everyone' (<https://doteveryone.org.uk/resources/heatmap/>) - mae graddau Allgáu Digidol y DU i'w gweld yn y map gwres isod gan 'Dot everyone' a 'Go ON UK' yn Ffigwr 13.

*Ffigwr 13 Map gwres Allgáu Digidol 'Dot Everyone'*



Map yn dangos y tebygolrwydd cyffredinol Allgáu Digidol

5.5.10. Mae'r mapiau gwres yma yn dangos tebygolrwydd cyffredinol Allgáu Digidol mewn ardal. Mae Allgáu digidol yn cael ei fesur ar raddfa o 1 i 9, ble mae 9 yn dynodi tebygolrwydd uwch o Allgáu digidol.

5.5.11. Mae lefelau Allgáu Digidol Cymru yn dilyn yn Nhabl 4.

*Tabl 4 Lefelau Allgáu Digidol ardraws Cymru*

| <b>Awdurdod lleol</b>                             | <b>Lefel Allgáu digidol<br/>(Asesiad 'Dot everyone')</b> |
|---------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent            | 9                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr       | 5                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili                | 9                                                        |
| Dinas a Sir Caerdydd                              | 2                                                        |
| Cyngor Sir Caerfyrddin                            | 9                                                        |
| Cyngor Sir Ceredigion                             | 5                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy                    | 9                                                        |
| Cyngor Sir Ddinbych                               | 9                                                        |
| Cyngor Sir Fflint                                 | 8                                                        |
| Cyngor Gwynedd                                    | 8                                                        |
| Cyngor Sir Ynys Môn                               | 9                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful           | 9                                                        |
| Cyngor Sir Fynwy                                  | 5                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 9                                                        |
| Cyngor Dinas Casnewydd                            | 5                                                        |
| Cyngor Sir Penfro                                 | 9                                                        |
| Cyngor Sir Powys                                  | 6                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf        | 9                                                        |
| Dinas a Sir Abertawe                              | 5                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen                  | 9                                                        |
| Cyngor Bro Morgannwg                              | 5                                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam                  | 8                                                        |

*Sylwer - gradd o 1 -9 ble mae'r ffigwr uchaf yn dynodi tebygolrwydd uwch o allgau digidol*

5.5.12. Mae Cynhwysiant Digidol yn amlwg fel uchelgais strategaethol yn nifer o'r dogfennau corfforaethol. Mae awdurdodau lleol yn gwybod fod Cynhwysiant Digidol yn nodwedd allweddol o adfywio bywyd economaidd bywiog. Deallir fod allgau digidol yn rhwystr mawr ym mywydau'r rhai sydd yn cael ei effeithio.

5.5.13. Mae sawl awdurdod lleol yn darparu Wi-Fi a mynediad i gyfrifiaduron mewn adeiladau cyhoeddus, ac yn hwyluso sesiynau dysgu digidol, ond mae allgau digidol yn parhau yn uchel ardraws rhan fwyaf o ardaloedd Cymru.

### **Pa ganlyniadau allwn eu tynnu o hyn?**

5.5.14. Gall bod yn abl yn ddigidol wneud gwahaniaeth mawr i ddinasyddion. I unigolion, gall hyn olygu lleihau eu biliau gartref er enghraifft, neu ddod o hyd i waith, cynnal cysylltiad gyda pherthnasau i oresgyn unigedd. Mae hyn wedi ei amlinellu'n glir yn Strategaeth Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru.

5.5.15. Felly, tra bod awdurdodau lleol yn mynd at i wynebu allgau digidol, a bod camau yn cael eu cymryd, mae arian yn broblem, ac mae'r sialensiau yn fawr i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

5.5.16. Mae datrys allgau digidol yn uchelgais ddrud, yn enwedig yn ardaloedd cefn gwlad ble mae'r achos busnes masnachol am fand eang a signal ffôn symudol yn wan. Yn ogystal, pan fo allgau ariannol a chymdeithasol wrth wraidd y broblem o allgau digidol, nid oes ateb hawdd.

5.5.17. Mae cynlluniau presennol band eang cyflym iawn 'Cyflym Cymru' yn allweddol i'r agenda digidol. Fel prosiectau band eang eraill y DU. Fel gyda phrosiectau Band eang eraill yn y DU mae problem gyda lleoliadau anghysbell a hefyd gyda phrinder pobl sy'n defnyddio hybiau yn y palmant, oherwydd nad yw pobl yn penderfynu eu prynu ar gyfer eu hunain. Mae ystyriaeth bellach mewn perthynas â'r ardaloedd hynny na fydd yn cael band llydan cyflym iawn; mae cynlluniau i fynd i'r afael ag ardaloedd fel hyn yn allweddol.


### **Esiamplau o awdurdodau lleol Cymru yn dangos tystiolaeth o Gynhwysiant Digidol:**

5.5.18. Mae gan Sir Gaerfyrddin swyddog penodedig sydd yn gweithio gyda chymunedau ar eu rhaglen Cymorth Digidol i ddinasyddion.

5.5.19. Mae Abertawe yn cynnig cyrsiau cyfrifiadur am ddim i ddinasyddion.



## 5.6. Dimensiwn 6: Staff Digidol



### Beth yw hyn?

5.6.1. Ystyr Staff Digidol yw sut mae swyddogion y gweithle yn cael eu datblygu i fanteisio ar effeithiolrwydd drwy sgiliau digidol gwell. Yn benodol, mae disgrifio ble mae darpariaeth ddigidol o welliannau digidol yn cael eu gweithredu, ac yn cael eu defnyddio i wella'r broses a llif gwaith drwy ffyrdd gwahanol o weithio a thrwy ddarparu dyfeisiadau symudol.

5.6.2. Yn yr adran yma, edrychwn ar:

- Arferion gwaith hyblyg a symudol i staff drwy ddarparu dyfeisiadau symudol a threfn gweithio hyblyg.
- Sut mae staff yn gweithredu amgylchedd di-bapur, a sut mae eu prosesau gwaith fel ceisiadau am dreuliau, a sut mae'r broses ymuno a gadael yn gweithio i gael awtomatiaeth ddigidol gorau posib.
- Ble mae cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio gan swyddogion i gydweithio a chysylltu gyda staff eraill a dinasyddion.
- Oes gan awdurdodau lleol y lefel iawn o sgiliau a digon o allu i gyflawni eu hamcanion digidol yn awr ac yn y dyfodol.
- Pa effaith gaiff strategaeth yr awdurdod lleol ar dechnoleg cwmwl TGCh cyfredol ac yn y dyfodol yr awdurdod lleol, eu gallu a'u sgiliau.

### Crynodeb o beth wnaethom ganfod.

5.6.3. Mae gweithlif wedi ei ddigideiddio yn bresennol yn awdurdodau lleol Cymru, ond nid yw'n aeddfed. Mae rhai awdurdodau lleol, oherwydd strategaeth asedau eiddo wedi gosod amgylchedd symudol a di-bapur llwyddiannus i'w staff.

5.6.4. Pan ofynnwyd y beth oedd y llwyddiant mwyaf a gafwyd drwy fod yn ddigidol, atebodd sawl awdurdod lleol, gweithio hyblyg, cau adeiladau i lawr a rhoi dyfeisiadau symudol i'w staff. Roedd eraill yn falch iawn o greu amgylchedd di-bapur.

5.6.5. Mae sawl awdurdod lleol yn y broses o weithredu prosiectau gweithio hyblyg, neu wedi gwneud hyn yn barod.<sup>1</sup>

5.6.6. Mae'r symud tuag at gyfrifiadura cwmwl yn eithaf anaeddfed ardraws yr holl awdurdodau lleol, gydag ychydig iawn neu ddim wedi eu gwasgaru yn barod, felly mae lefel uchel o ddibyniaeth ar arbenigedd TGCh mewnol wrth gynnal ceisiadau a systemau.

5.6.7. Mae nifer wedi dechrau gweithio yn agos gyda'u gwasanaethau TGCh i alluogi cyflawni prosiectau digidol.

5.6.8. Mae rhan uchel o'r awdurdod lleol yn credu fod ganddynt ddigon o sgiliau a gallu i gwrdd â'r amcanion digidol. Mae nifer wedi sefydlu beth yw eu gallu i ail-ddylunio o fewn y sefydliad, ac wedi apwyntio timau datblygu mewnol.

5.6.9. Dylai awdurdodau lleol ystyried tyfu eu talentau eu hunain yn y maes yma, ac efallai cyd-weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sefydlu pwll datblygu adnoddau sgiliau digidol. Roedd tipyn o frwdfrydedd am dîm canolog o arbenigwyr digidol, a fyddai posib ei rannu rhwng awdurdodau lleol fel bo'r angen. Gellir edrych ar hyn ymhellach yn y digwyddiadau digidol a gynigir (gweler yr adran argymhellion).

5.6.10. Yn seiliedig ar y dadansoddiad yma, mae Socitm Advisory Ltd wdi asesu aeddfedrwydd digidol prosesau staff a ffyrdd newydd o weithio, fel y nodir yn Ffigwr 14.

*Ffigwr 14 Nifer awdurdodau lleol Cymru ar bob lefel o aeddfedrwydd staff digidol*



<sup>1</sup> Ni wnaeth comisiwn Socitm gynnwys ymweld â adeiladau i asesu profiad digidol y swyddogion yr awdurdod lleol. Mae'r rhanfwyaf o awdurdodau wedi disgrifio eu gorchestion ar yr agwedd yma o ddigidol, yr adroddir yma.

## **Sut mae da yn edrych?**

5.6.11. Mi fydd y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni gwasanaethau mewn byd digidol, yn wahanol i'r hyn ydynt heddiw. Gyda chyflwyniad desgiau cymorth/asiantau canolfanau cyswllt digidol sydd yn dysgu o hyd, bydd y rhain yn y bôn yn newid y ffordd mae gwasanaethau digidol yn cael eu cyflawni. Bydd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, a data mawr wrth ragweld tueddiadau a gofynion cwsmeriaid yn newid y ffordd mae cyflawni gwasanaeth yn cael ei ddylunio, ac yn cael ei gyflawni. Gan fod dinasyddion yn gallu darparu adborth agored a thryloyw ar eu profiad, bydd ail-ddylunio digidol yn fwy adweithiol ac ymatebol nac erioed. Byddwn yn gweld swyddogaethau newydd yng ngweithle'r dyfodol, megis Prif Swyddog Data, Prif Swyddog Digidol, Dylunydd Profiad Dinasyddion, ac Arweinydd Gweithle Digidol. Mae gweithlu yn newid ac yn dod yn fwyfwy symudol, bydd poblogrwydd o weithio'n hyblyg a symudol yn arferol, yn gweithio tuag at waith yn seiliedig ar ganlyniadau. Bydd gweithluoedd yn cyd-weithio gan ddefnyddio systemau gwahanol, gan symud i ffwrdd o ddibyniaeth e-bost, gan ddefnyddio arfau megis Facebook, LinkedIn a WhatsApp. Bydd gweithluoedd yn cael eu mesur a'u gwobrwyo mewn ffyrdd gwahanol. Bydd y rhain i gyd yn gofyn am ddiwylliant, recriwtio, adnoddau a strategaeth cadw wahanol. Bydd angen Strategaeth Gweithlu Digidol ar gyfer awdurdodau lleol.

## **Beth wnaethom ei ganfod mewn awdurdodau lleol Cymru?**

5.6.12. Ni wnaeth awtomatiaeth o brosesau staff, megis cyflwyno treuliau, trefnu gwyliau neu reoli arfarniad ymddangos llawer yn y trafodaethau. Nid yw hyn yn golygu nad ydynt yn bod (mae tystiolaeth wedyn yn awgrymu eu bod), ond fod y sgysiau yn canolbwyntio ar agweddau eraill o ddigidol yn yr amser oedd ar gael.

5.6.13. Mewn strategaethau corfforaethol, mae staff digidol yn aml yn cael eu cysylltu â defnydd adeiladau a rhesymoli; tydi digideiddio prosesau staff mewnol ddim yn uchelgais sy'n ymddangos yn aml mewn dogfennau strategol.

5.6.14. Mewn Hunanasesiadau Aeddfedrwydd Digidol, mae Socitm Advisory Ltd yn gofyn y cwestiwn, ydych yn cytuno gyda'r datganiad canlynol am eich sefydliad?  
*"Mae'r holl drafodion mewnol ar gael ar-lein ar nifer o ddyfeisiadau, gyda hunanwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd, gan dynnu unrhyw wirio mewnol diangen gan reolwyr uwch. Mae dod a'ch dyfais eich hun yn aeddfed a diogel."* O'r 20 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn yma, anghytunodd 15, cytunodd 3, ac nid oedd dau yn gallu ateb.

5.6.15. Cytunodd yr holl ymatebwyr gyda'r datganiad y byddai staff yn eu sefydliad hwy yn "gyfforddus gyda hunanwasanaeth electronig ar gyfer pethau fel ceisiadau gwyliau, absenoldeb, treuliau, prynu a newid data personol".

5.6.16. Mae Socitm Advisory Ltd yn disgwyl fod gan ran fwyaf o awdurdodau lleol brosesau Adnoddau Dynol a systemau perthnasol i ganiatáu mwy o ddigideiddio staff na mae'r cyngor yn ei weithredu. Mae'n debygol fod cyfleoedd da i ddigideiddio prosesau mewnol ymhellach.

5.6.17. Pan ofynnwyd a oedd ganddynt y gallu i gyflawni anghenion digidol, dywedodd 14 awdurdod lleol fod y gallu ganddynt, a dywedodd wyth nad oedd ganddynt ddigon o allu. Mae Socitm Advisory Ltd yn amau nad oes gan unrhyw un ohonynt y gallu os ydynt wirioneddol eisiau cyrraedd lefel pump ar bob dimensiwn o aeddfedrwydd.

5.6.18. Mae un ar hugain awdurdod lleol yn disgwyl symud i fodel hybrid gyda rhai gwasanaethau o'r cwmwl, a rhai ar y safle neu mewn canolfannau rhannu data. Mae un awdurdod lleol yn disgwyl bod yn gyfan gwbl ar y cwmwl (100%). Felly bydd rhaid i'w sgiliau presennol o fewn eu gwasanaethau TGCh newid ac addasu fel y maent yn newid i dechnoleg cwmwl.

5.6.19. Er hynny, mae nifer o awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi bydd angen mwy o allu mewn sgiliau digidol, a bydd y rhain yn cael eu darparu gan Gyflenwyr am dymor byr neu hir.

5.6.20. Mae un awdurdod lleol yn gweithio gyda phrifysgol leol i fynd i'r afael â'r diffyg yn i sgiliau digidol, gan ddarparu profiad gwaith digidol i fyfyrwyr.

5.6.21. Mae recriwtio a chadw yn broblem barhaus. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol sydd â model gyflenwi mewnol i apwyntio staff dibrofiad, ond sydd ag agwedd dda a brwdfrydedd i ddysgu, yn disgwyl iddynt aros nes iddynt gael eu hudo i ffwrdd pan fyddant yn fwy profiadol.

5.6.22. Mae gweithio hyblyg, symudol a di-ddesg wedi ei sefydlu'n dda yn awdurdodau lleol Cymru, fel y gwelir yn Nhabl 5.

*Tabl 5 Prosiectau gweithio symudol ar draws awdurdodau lleol.*

| Statws Gweithio symudol       | Nifer yr awdurdodau lleol |
|-------------------------------|---------------------------|
| Heb gychwyn                   | 2                         |
| Yn gwneud                     | 3                         |
| Wedi gwneud, ac yn gwneud mwy | 16                        |
| Ddim yn gwybod                | 1                         |

### **Pa ganlyniadau allwn ei gymryd o hyn?**

5.6.23. Mae awdurdodau lleol Cymru yn amlwg yn cydnabod yr angen i weithredu gweithio hyblyg i'w staff, ac yn ymdrechu i roi'r arfau iawn iddynt i wneud eu swydd yn fwy effeithlon. Mae canran uchel o awdurdodau lleol wedi cwblhau, neu bron a chwblhau rhaglen weithio hyblyg.

5.6.24. Er hynny, mae diffyg tystiolaeth fod awdurdodau lleol yn ymwreiddio sgiliau digidol i strategaeth y gweithlu, ac yn rhagweld yr angen ar gyfer sgiliau digidol a'r gallu yn y dyfodol.

5.6.25. Bydd symud tuag at dechnoleg cwmwl yn newid gwasanaeth sgiliau TGCh cyfredol, ac mae angen mynd i'r afael â hyn fel rhan o strategaeth gweithlu ehangach.

5.6.26. Mae awtomeiddio prosesau staff er enghraifft ymunwyr a staff sy'n gadael, ceisiadau treuliau ayyb yn brosiect mawr a fydd un ai yn cael ei roi ar y 'silff o'r neilltu', neu yn ymdrin â nhw drwy systemau adfywio yn dameidiog yn nifer o awdurdodau lleol. Mae eraill wedi ymdrechu i fynd i'r afael â hyn mewn ffordd fwy corfforaethol, a gallant dystiolaethu'r buddiannau i awdurdodau lleol cyfagos.

**Esiamlau o Awdurdodau Lleol Cymru yn dangos staff digidol da, yn cynnwys:**

5.6.27 Mae Castell-nedd Port Talbot ac Ynys Môn wedi dechrau 'Dewch a'ch dyfais eich hun' (BYOD)

5.6.28. Mae Sir Gaerfyrddin wedi trefnu gweithio hyblyg i'r staff. Maent wedi gweithio gyda Vodafone i sefydlu patrymau gweithio cyfredol y staff, y gyfradd gyfredol yw 70% sefydlog, 30% hyblyg. Maent yn bwriadu symud tuag at 20% sefydlog, 80% hyblyg fel rhan o'r rhaglen gweithio hyblyg.


## 6. Casgliadau a dyfodol digidol

Crynodeb o aeddfedrwydd digidol awdurdodau lleol Cymru

### 6.1 Ffigwr 15 Nifer yr awdurdodau lleol ar bob lefel o aeddfedrwydd digidol

6.1.1. Mae'r rhif ar bob gris o'r ysgol aeddfedrwydd ddigidol yn cynrychioli faint o awdurdodau lleol Cymru a asesir i fod ar bob lefel o aeddfedrwydd.

*Ffigwr 15 Faint o awdurdodau lleol sy ar bob lefel o aeddfedrwydd digidol.*



6.1.2. Mae'r **galw** gan ddinasyddion am ddigidol yn tyfu. Fel mae dinasyddion ac ymwelwyr eraill yn dod yn fwy soffistigedig ddigidol, mae disgwyliadau dinasyddion yn codi ynglŷn â sut maent am ryngweithio â darparwyr gwasanaethau. Mae hollbresenoldeb ffonau clyfar a dyfeisiadau symudol eraill yn ei gwneud yn fwyfwy cyfleus i ddinasyddion gysylltu'n ddigidol gyda'u hawdurdod lleol.

6.1.3. Mae **archwaeth** gref iawn ac awydd gan lawer o'r awdurdodau ar draws Cymru i symud ymlaen gyda throsglwyddo'r agenda digidol. Ceir barn gyffredinol yn yr ymchwil hwn bod awdurdodau lleol yn ystyried bod yr agenda digidol yn cynnig dull newydd i'r awdurdodau lleol i gynnig gwasanaeth yn y dyfodol. Mae rhai awdurdodau wedi gwreiddio hyn yn eu strategaethau arweiniol corfforaethol ac maent mewn lle da i gyflwyno rhagoriaeth ddigidol, o fewn eu cyfyngiadau ariannol. Mae gan eraill unigolion brwdfrydig nad ydynt yn cael eu cynnal bob amser gan dystiolaeth dogfennau strategol, a fydd yn cyflawni cymhwysedd digidol digonol.

Mae gan un neu ddau awdurdod lleol ffordd bell i fynd a gallant ddal i ymbalfalu, heb flaenoriaethu'r digidol a chael cymorth corfforaethol.

6.1.4. Mae **budd** digidol, yn cael ei ddeall gan y swyddogion a gafodd gyfweiliad, yn ymwneud â lleihad costau, profiadau rhagorol cwsmeriaid a threfniadaeth effeithiol, safbwynt a rennir gan Socitm.

6.1.5. Yn gyffredinol, mae **aeddfedrwydd digidol** awdurdodau lleol Cymru yn debyg i awdurdodau eraill yn y DU ac mewn gwledydd tebyg.

6.1.6. Yng Nghymru, **nid oes un awdurdod lleol wedi cyflawni uchafswm aeddfedrwydd** ar bob agwedd o ddigidol, yn debyg i leoedd eraill. Mae rhai yn gryf

gyda chynnig digidol i staff, gyda phrosesau awtomatig mewnol, gweithio'n symudol a swyddfeydd di- bapur. Mae rhai yn gryf gyda thrafodion digidol ar gyfer dinasyddion. Mae rhai yn defnyddio'u data yn fedrus mewn ffyrdd cyfannol i hyrwyddo effeithlonrwydd ac i siapio economi gwybodaeth gyda data agored. Mae rhai yn gryf mewn ffyrdd eraill, ond mae ganddynt i gyd le i wella'n barhaus.

## **6.2 Blaenoriaethau a sialensiau**

6.2.1. Pan ofynnwyd iddynt, ystyriai'r awdurdodau lleol y canlynol fel blaenoriaethau pwysicaf ynglŷn â digidol:

- Ffyrdd newydd i'r staff i weithio
- Cynhwysiant digidol
- Sgiliau digidol ar gyfer staff, Aelodau a dinasyddion.
- Data clyfar a deallusrwydd busnes.
- Cyfrifon dinasyddion ar-lein sy'n cynnig mynediad diogel a gwiriad.
- Ail gynllunio gan ganolbwyntio ar ddinasyddion.
- Symud rhaglenni a systemau i gyfrifiadura Cwmwl
- Taliadau heb arian

6.2.2. Ystyria awdurdodau lleol y canlynol fel yr heriau mwyaf arwyddocaol ynglŷn â gweithrediad digidol.

- Allgáu digidol
- Ariannu
- Ymrwymiad partner
- Aelodau etholedig
- Staff / swyddogion
- Ariannu
- Arall

## **6.3. Dyfodol Digidol**

6.3.1. Mae digidol ei hun yn stori ddi-ben-draw. Bydd awdurdod lleol sy'n gorffwys ar ei rhwyfau yn disgyn i lawr yr ysgol aeddfedrwydd ddigidol fel mae posibiliadau digidol newydd yn ymddangos yn y farchnad sy'n newid yn gyflym fel y dangosir yn Ffigwr 16.

*Ffigwr 16 Ni fydd aeddfedrwydd digidol byth yn orffenedig.*



6.3.2. Mae safleoedd gwe traddodiadol wedi gallu sianelu dinasyddion i bwynt unigol, er mwyn cwblhau trafodion ac edrych am gyngor ac arweiniad. Bydd gofyn i sefydliadau wella eu gallu i ragweld gofynion y dinesydd cyn y bydd y dinesydd yn gofyn amdanynt, a gwneud y gorau o ddewisiadau hunanwasanaeth cwsmeriaid.

6.3.3. Bydd gan ddigidol hefyd rôl gynyddol mewn rheoli galw - gan leihau'r galw a roir ar wasanaethau. Oni bai am drwy ffyrdd traddodiadol o newid sianel, ni chafwyd tystiolaeth o hyn yn awdurdodau lleol Cymru hyd yma.

6.3.4. Dylai awdurdodau lleol Cymru, fel eraill, feddwl yn amlach tu hwynt i borwyr, rhaglenni a phrosesau digido, i ddatblygu mwy gyda data a sut i'w ddefnyddio i ychwanegu gwerth.



## **7. Argymhellion**

### **7.1 Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol**

7.1.1 Dylai pob awdurdod lleol edrych ar ei darpariaethau i ddarganfod lle mae eu cryfderau a'u gwendidau a sicrhau eu bod wedi optimeiddio eu cryfderau digidol yn eu cynlluniau i fynd ymlaen. Mae gan bob awdurdod lleol eu canlyniadau o'r arf hunan asesiad Aeddfedrwydd Digidol . Darparwyd pob un â'r naratif o'r ymchwil ffôn sy'n rhan o'r ymchwil hwn yn ogystal â thabl sy'n dangos ymatebion i'r cwestiynau caeedig. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r deunydd hwn a'r adroddiad hwn i asesu eu safle a'u potensial ar gyfer digidol.

7.1.2. Mae awydd cryf i gydweithio ar yr agenda digidol ar draws yr holl awdurdodau lleol er mwyn rhannu syniadau ac arfer dda, ac ymuno i fynd i'r afael â'r sialensiau maent yn wynebu gan gyflawni eu blaenoriaethau cyffredin.

7.1.3. Mae angen i'r awdurdodau lleol osod eu blaenoriaethau buddsoddiad digidol er mwyn cael aeddfedrwydd digidol cytbwys sy'n cwrdd â'u huchelgeisiau corfforaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn gwneud hyn i raddau'n barod - bydd hunan asesiad AAD, y nodiadau cyfweliad a'r adroddiad hwn yn gymorth i ganolbwyntio ar strategaeth ddigidol a'u gweithredu.


7.1.4. Dylai awdurdodau lleol gynghori a hysbysu Llywodraeth Cymru ynglŷn â pha argymhellion maent yn frwdfrydig yn eu cylch ac yn eu hystyried eu bod yn darparu'r gwerth gorau.

### **7.2 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.**

7.2.1 O'r prosiect ymchwil hwn, mae meysydd amlwg i Lywodraeth Cymru i'w hystyried a'u hyrwyddo er mwyn cyflymu'r ddarpariaeth o'u hagenda digidol. Mae'r mentrau hyn yn deillio o'r darganfyddiadau yn y prosiect ymchwil hwn ac yn cynnwys argymhellion Socitm.

7.2.2 Dangosir y rhain yn Ffigwr 17. Mae'r cyfleoedd i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru wedi eu hamlinellu mewn dwy ffrâm amser; cyfleoedd tymor byr a thymor hir.

*Ffigwr 17 Gweithrediadau tymor byr a thymor hir.*



### 7.3. Mentrau tymor byr

7.3.1 Mae'r rhain yn ystyriaethau di-oed a fydd yn gwneud gwahaniaeth yn y tymor byr ac yn dangos y meddylfryd tymor hir o gwmpas yr agenda digidol. Bydd y mentrau tymor byr hyn yn cynnal y momentwm sydd wedi ei ddechrau mewn perthynas ag adeiladu ar y cydweithredu a rhannu arfer dda ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

7.3.2. **Digwyddiadau digidol** - roedd pwyslais cryf gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau ar fwy o rwydweithio a digwyddiadau dysgu, gan ymwneud â chynulleidfyr Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr, yn ogystal â'r arweinyddion digidol a'r ymarferwyr. Gellid cynnal y rhain yn lleol o fewn Cymru (efallai un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru) i leihau gofynion teithio, a fyddai'n cynyddu presenoldeb.

7.3.3. Fodd bynnag ni ddylai'r digwyddiadau hyn ganolbwyntio ar Gymru'n unig, dylent gael eu defnyddio i herio sialensiau a meddyliau ehangach drwy ddefnyddio siaradwyr o ardaloedd daearyddol a sectorau eraill.

7.3.4. **Sefydlu canolfan ddigidol rithiol** ( fforwm ar-lein ar gyfer trafodaeth a rhannu dogfennau) byddai hyn yn rhoi cynhaliaeth i fwy o ddigwyddiadau rhwydweithiol digidol. Deallwn fod hybiau rithiol ar gael yng nghymuned Llywodraeth Leol Cymru, deallwn hefyd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n dda ar hyn o bryd. Gallai fforwm canolfan rithiol gael ei ddefnyddio i ddod â'r awdurdodau lleol at ei gilydd i ymwneud ag agenda digidol a sefydlu blaenoriaethau cyffredin. Gellid defnyddio canolfan ddigidol i ddarparu cysylltedd ag awdurdodau lleol a phartneriaid a'u galluogi i ddefnyddio arfau digidol i ddatblygu syniadau, rhannu a chyd-drefnu

mentrau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu'r Ganolfan Ddigidol gyda phartneriaid yn y sector gyhoeddus.

**7.3.5. Cydweithio cynorthwyedig.** Mae angen i alluogi mwy o gydweithio ymysg awdurdodau lleol mewn meysydd megis:

- Cynllunio strategaeth ddigidol i'r genedl, helpu i gyfarwyddo'r strategaeth Ddigidol Gyntaf.
- Datblygu'r peirianwaith digidol neu fabwysiadu safonau GDS.
- Sefydlu prosiectau blaenoriaethol; atebion data clyfar, cyfrifon ar-lein, gwirio cyfrifon.
- Datblygu sgiliau digidol.

## **7.4. Ystyriaethau tymor hir**

**7.4.1.** Bydd y mentrau tymor byr yn helpu'r cynllun gweithredu tymor hir ar gyfer agenda digidol.

**7.4.2.** Mae **rhannu systemau** Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi cael llwyddiant go iawn gyda'r System Gofal Cymdeithasol diweddar felly mae momentwm i gydweithio mwy i ddatblygu platfformau cyffredin i leihau'r pwysau ariannu llywodraeth leol.

**7.4.3.** Ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yn buddsoddi yn eu mentrau digidol eu hunain. Gyda chyllidebau dan bwysau a'r galw am arbedion byddai strategaeth buddsoddi yn cyflymu datblygiad agenda digidol y genedl, mwy o blatfformau cyffredin, **cydweithio gyda gweithgareddau caffael** a byddai'n cyflymu'r agenda digidol ar draws awdurdodau lleol.

**7.4.4. Atebion tactegol digidol.** Gellid cydweithio yn y tymor canol i fuddsoddi mewn un arf yn y meysydd canlynol:

- Atebion sgwrsio ar y we
- Un system e-bost
- AD, Cyllid a system gyflogau
- Gwrando ar y cyfryngau cymdeithasol ac arf deall tyrfa.

**7.4.5. Isadeiledd a chynhwysiant digidol.** Mae cynlluniau diweddar o gael band llydan cyflym iawn 'Cyflym Cymru' yn allweddol iawn ar gyfer yr agenda digidol. Fel gyda phrosiectau Band eang eraill yn y DU mae problem gyda lleoliadau anghysbell a hefyd gyda phrinder pobl sy'n defnyddio hybiau yn y palmant, oherwydd nad yw pobl yn penderfynu eu prynu ar gyfer eu hunain. Mae angen mwy o ystyriaeth ar gyfer yr ardaloedd hynny lle nid oes band llydan cyflym: mae cynlluniau i ateb problemau ardaloedd o'r fath yn hanfodol.

**7.4.6. Mewnwelediad dinasyddiaeth ddigidol .** Mae awydd sylweddol i gael atebion cydweithredol i ymdopi â data dinasyddiaeth a chael mewnwelediad dinasyddiaeth. Noder fod disgwyl y gellid deall 'mewnwelediad dinasyddiaeth' mewn mwy o fanylder, a'i flaenoriaethu drwy ddigwyddiadau cydweithio arweinyddiaeth

ddigidol a'r ganolfan ddigidol a ddisgrifir uchod. Yn ei hanfod, mae angen arf digidol i helpu dinasyddion i ddilyn cynnydd ei gweithgareddau gyda'r awdurdod lleol. Yn ogystal â chynnig gwell profiadau digidol i'r dinesydd gall hefyd hyrwyddo gwell gwasanaeth cynllunio. Mae amryw o Awdurdodau Lleol Cymru wedi ystyried atebion yn y maes hwn, ond wedi darganfod eu bod yn rhy ddrud. Mae un wedi mynd ymlaen i brynu un. Mae gofyn i'r dinesydd gael ei wirio (er mwyn cadarnhau eu bod pwy maent yn ddweud ydynt) a rhannu'r wybodaeth ar draws ffynhonnell ddata ym mhob awdurdod. Mae'r GDS wedi gwahodd awdurdodau lleol y DU i gyd i ymuno â pheilot Llywodraeth Leol IDA *Verify*. Ni wirfoddolodd unrhyw awdurdod lleol ar gyfer y peilot, rhai mae'n debyg oherwydd y gallu i gyfrannu i'r peilot, eraill am nad oeddynt yn ymwybodol ohono ac eraill eisiau aros am fersiwn mwy datblygedig ohono.

7.4.7. Gyda neu heb wiriad dinesydd, mae angen cyffredinol ( heb ei gyflawni yn gyffredinol) i awdurdodau yrru ymlaen mewnwelediad y dinesydd o'r data. Mae cyfle i archwilio hyn; i reoli hyn gyda data cyffredinol ar lefel y dinesydd Cymreig , yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol unigol. Gallai prosiect o'r fath leihau costau a chyflawni gwell fewnwelediad dinesydd, gan fod amryw ddinesydd yn ddinasyddion mwy nag un awdurdod lleol. Gallai hefyd fod yn ystorfa werthfawr iawn o ddata agored. Wrth amddiffyn anhysbysrwydd y dinesydd unigol, gallai data agored gynnig gwybodaeth ar gyfer cynllunio ac adfywio o safbwynt y sector cyhoeddus yn ogystal â'r darparwr masnachol.

7.4.8. Byddai dull cydweithiol i fewnwelediad dinesydd sy'n lleihau costau ac yn sicrhau cysondeb yn cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn.

# Atodiad A Asesiad Aeddfedrwydd Digidol (AAD) - Cwestiynau hunanasesu

**Allwedd**

| 1                | 2         | 3                 | 4      | 5              | 6      | 7             |
|------------------|-----------|-------------------|--------|----------------|--------|---------------|
| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Anghytuno ychydig | Ansicr | Cytuno ychydig | Cytuno | Cytuno'n gryf |

| Aeddfedrwydd TG                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |   |   |   |   |   |   |   |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennych strategaeth TG effethiol, gydag ystod canlyniadau digidol wedi'i nodi. Mae proses gweithredu TG yn dangos perfformiad dda sydd fel rheoliadd yn cael ei galw'n gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae'r strategaeth yn nodi y pwysigrwydd o newid mewn busnes i ddreifio gwerth buddsoddiadau yn TG a'i rhwystrau. Mae yna diffiniad clir a mae'r TG yn cael ei reoli yn dda.      | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae newid diwylliannol ar ei ffordd oherwydd gwasanaeth model newydd sydd yn defnyddio TG, gyda staff sydd yn cael eu disgwyl i weithio'r system ar gyfer gweithgareddau cyffredin, yn enwedig mewn cyllid, adnoddau dynol a chaffael. Byddan nhw'n gyfforddus gyda system electronig hunanwasanaeth ar gyfer pethau fel gwyliau blyneddol, absenoldeb, prynu a newid manylion personol. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae gennych adran TG effeithiol ac arweinydd cryf, gyd syniadau ardderchog a hanes cyflewni TG dda iawn. Mae byrddau rhaglenni yn dilyn "Prince" / Tywysog a dulliau rhaglenni i sicrhau fod swyddogaethau a chyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu yn effeithiol, gydag prosectiau TG wedi'i danategu gan achosion busnes effeithiol.                                                         | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae genych arweinyddiaeth effeithiol sydd yn adrodd gyd o'r rhaglenni TG ac wedi galluogi newid TG, gydag achosion busnesau clir a blaenoriaethau adnoddau yn erbyn uchelgais corfforaethol. Mae gyd o'r swyddi-gefn yn 'hunanwasanaethu' trafodion, a mae adrannau unigol gyda planniau digidol gydag amryiaeth o lefelau o aeddfedrwydd.                                               | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Holl rhaglenni galluogi TG yn cael eu barnu yn erbyn amser, costau a ansawdd metrics, a 'manteision gwireddu' yn cael eu monitor yn ofalus. Mae costau TG yn cael eu olrhain a'u reoli yn erbyn y diwydiant gorau, ac yn cael ei adroddi yn agored ag yn onest. Mae TG yn perfformio, gan bob metrig, ar y lefel uchaf ac wedi mabwysiadu arferion fodern.                               | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae'r sefydliad gydag sgiliau TG da neu dda iawn, gyda rhaglenni a hyfforddiant priodol ar gyfer e-ddysgu, gan sicrhau fod gyd o technoleg newydd wedi cael ei rholio allan fel newid a all gael ei reoli. Mae llythrennedd TG gydag staff yn uchel; mae sgiliau TG yn cael eu werthfawrogi (yn ddiswyliedig) gan pawb.                                                                  | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae cyflaeoedd TG yn hymgorffori yn y broses o gwasanaethau cynllunio, yn edrych yn ofalus ar y potensial sydd gan TG i gymorth fyrrdd newydd o weithio a ymgysylltu gyda'r cwsmeriad. Mae gwasanaethau ar y we yn awtomataidd, yn hawdd i'w ffindio a hawdd i'w ddefnyddio.                                                                                                             | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae mynediad i'r we a arwddo sengl yn cael eu flaenoriaethu ac mae yna gwasanaeth cyswllt cwsmeriaid 'ddwfn a llydan' sydd yn effeithiol, defnyddio offer fel 'sgwrs fyw'. Mae dewis y cwsmer yn cael ei flaenoriaethu, tra yn cydnabod nad yw pawb yn gallu deallt y 'byd digidol'. 'Digidol yn ddiofyn' yn helpu creu canlyniadau mwy effeithiol o fodelau gweithredu.                 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Rydech wedi fuddsoddi yn dda mewn offerau TG, ac yn cadw i fynu gyda'r tueddiadau a'r datblygiadau tra yn barnu yn gywir yr amser cywir i fanteisio arnyn nhw. Mi rydech yn arweinydd llwyddianus yn cyflwyno gwasanaethau technoleg newydd mewn pethau fel y cyfryngau cymdeithasol, gynadledda fideo, arwyddo ymlaen sengl, rheoli hunaniaeth a awtomeiddio.                           | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae pob trafodion ar gael a y we, ar sawl ddyfesiaw gwahanol, gydag gwasanaeth llawn o'r dechrau i'r diwedd, ac yn cael gwared o hierarchaeth rheoli mewnol diangen. Mae 'BYOD' yn aeddfed a diogel. Mae cyfryngau cymdeithasol yn cael eu ddefnyddio yn eang ac yn effeithiol, gydag data electronig sydd yn dal adborth a'r ymgysylltu gyda'r cwsmeriaid.                              | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

| Aeddfedrwydd digidol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |   |   |   |   |   |   |   |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennych strategaeth ddigidol, wedi ei gytuno gan y bwrdd ar gyfer pob rhan o'r busnes. Mae'r broses o lunio strategaeth a gweithredu yn dangos gwerth busnes. Cydnabyddir y bydd costau yn gysylltiedig â TGCh yn cynyddu, ynghyd â newid entrepreneuriaidd a arweiniodd technoleg ac arloesi. Mae model risg newydd ar gyfer y busnes cyfan ar waith, gan gydnabod y ddibyniaeth ar dechnoleg ar gyfer enw da, gwasanaeth, cost a llwyddiant yn y dyfodol.                                                                                                                                                       | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae'r holl weithwyr cyflogedig yn ymwybodol o effaith 'digidol' yn ogystal â'r rhan newid y mae hyn yn awgrymu ar eu cyfer – yn yr hyn maent yn ei wneud a sut y gwnânt hynny, yn fwy atebol ac yn gyfrifol ac yn gweithredu'n gyflymach. Maent yn gwybod eu bod yn gyfrifol am feddwl am syniadau i wella'r mabwysiadu digidol fel rhan o strategaeth ddigidol – helpu i nodi, blaenoriaethu a harneisio'r cyfle digidol yn eu gwaith o ddydd i ddydd.                                                                                                                                                               | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae gennych arweinydd digidol (sef Prif Swyddog Digidol) ac rydych o dan arweiniad y bwrdd digidol, sy'n torri ar draws y busnes cyfan, wedi ei gefnogi gan raglen weithredol effeithiol TGCh. Mae'r rhaglen ddigidol yn neilltuo cyfrifoldebau digidol clir i holl aelodau bwrdd y rhaglen ddigidol ac yn bwnc rheolaidd i'r prif fwrdd. Caiff arferion gweithio sefydledig, prosesau a sgiliau uwch reolwyr eu herio yn agored ac yn gadarnhaol.                                                                                                                                                                    | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae map digidol trosfwaol neu gynllun cyflawni sydd â gorchymyn o sofraniaeth dros bob maes gwasanaeth ac adran, i ddarparu llwyfan digidol cyffredin, proses ac arferion gwaith. Mae prosesau swyddfa gefn y busnes a'r swyddfa flaen yn digidol ac â ffiniau aneglur. Nid yw cyflawni yn unig drwy 'TGCh', ond gan yr holl gyfarwyddwyr a rheolwyr gwasanaethau, wedi ei gydlyn yn gorfforaethol.                                                                                                                                                                                                                   | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Daw canlyniadau gwerth o newid digidol ac mae buddsoddi yn rhan o dargedau perfformiad y prif swyddog ac yn rhan annatod o bob gwasanaeth cynllunio. Nid oes unrhyw adroddiad blynyddol ar wahân ar gyfer TGCh, dim ond effeithiolrwydd o ddefnydd TGCh i drawsnewid y busnes ac arloesi er budd ariannol a gwasanaeth a nodwyd gan y gwasanaeth. Ystyrir asesiad o berfformiad llwyfan busnes cyffredin TG ar gyfer mabwysiadu digidol yn rheolaidd gan y bwrdd.                                                                                                                                                     | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae dysgu a datblygu, gan gynnwys sgiliau arweinyddiaeth, yn ei gynllunio mewn modd gyfannol ar draws y busnes i gefnogi mabwysiadu digidol cyflym – gan ystyried cyflogwyr, cyflenwyr, partneriaid a'r cyhoedd. Mae cyflogwyr yn benodol yn gyfforddus a chymwys wrth ddefnyddio offer digidol a gwybodaeth electronig ym mhopath a wnânt, lle bynnag y maent yn gweithio. Mae hyn yn golygu mwy na'r gallu i ddefnyddio TG, ond yn sut y defnyddir adnoddau i sicrhau gwelliannau i wasanaethau. Mae Llythrennedd TG ymysg y staff yn uchel; mae sgiliau TG yn cael eu gwerthfawrogi (a'u disgwyl) ar gyfer pob un. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 'Digidol yn ddiofyn' yw'r peth cyffredin mewn cynllunio gwasanaeth, a datblygir gwasanaethau i awdurdio defnyddwyr gwasanaeth (cwsmeriaid, cyflenwyr a gweithwyr) a darparwyr gwasanaeth cyfryngol i ddefnyddio dulliau digidol yn gyntaf ac i gymryd rheolaeth. Mae hyn yn golygu bydd dylunio gwe yn dechrau gyda'r defnyddiwr ac mae annog pobl i hawlio deunydd digidol, yn mynnu ei bolisi ac ymarfer.                                                                                                                                                                                                           | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae'r holl 'brosesau cwsmeriaid' wedi eu digideiddio ac wedi'u personoli, a profiad cwsmer yn gyson ar draws pob sianel. Mae gwasanaethau digidol wedi'u cynllunio ar y cyd gyda defnyddwyr, yn ogystal ag ar draws y gadwyn gyflenwi â phartneriaid. Disgwylir i'r holl ddefnyddwyr gysylltu'n ddigidol neu drwy sefydliadau cyfryngol, a blaenoriaethir mecanweithiau cymorth i alluogi hyn. Mae 'Digidol yn ddiofyn' yn awdurdio defnyddwyr ac fe'i cynlluniwyd ar gyfer hawlio a mynediad cyfartal, nid yn unig ar gyfer effeithlonrwydd.                                                                         | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |   |   |   |   |   |   |   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|
| Rydych chi wedi cwblhau adolygiad TG llawn i ystyried 'y gwaelod i fyny', o beth bydd angen ei newid o ran cefnogi'n llawn y symudiad i ddigidol ac i greu llwyfan digidol ar gyfer y dyfodol – y gallu, blaenoriaethu, llywodraethu, datblygiad dulliau, dylunio egwyddorion digidol, technolegau, buddsoddiadau a blaenoriaethu i weithgaredd TG. Mae hyn yn y bôn wedi herio'r gyflenwad TG 'safon fyd-eang' draddodiadol. Nid yw TG draddodiadol bellach yn rwystr i arolesi.     | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Mae prosesau 'Mewnol yn unig' bellach ar gael i gwsmeriaid a chyflenwyr, i gynyddu'r lefel o hunanreoli y mae cwsmeriaid, cyflenwyr a phartneriaid yn ei wneud. Yn benodol mae cyflenwyr yn cymryd rhannau newydd o'r gadwyn werth i leihau unrhyw waith fyddai'n cael ei ailadrodd. Defnyddir 'Data mawr' yn effeithiol i sbarduno penderfyniadau cyflymach a gwasanaethua dylunio. Mae E-lyfrau digidol ar gael i staff i'w cynorthwyo i ymgysylltu'n llawn gyda'r agenda ddigidol. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

### Allwedd

| 1         | 2                            | 3                           | 4                 | 5                           | 6                            | 7         |
|-----------|------------------------------|-----------------------------|-------------------|-----------------------------|------------------------------|-----------|
| A yn unig | A yn bennaf, ond ychydig o B | Rhan fwyaf o A, ychydig o B | A a B yn gyfartal | Rhan fwyaf o B, ychydig o A | B yn bennaf, ond ychydig o A | B yn unig |

| Cydbwysedd digidol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |   |   |   |   |   |   |   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnig A: Mae gennych strategaeth TG effeithiol, gydag amrywiaeth o ganlyniadau digidol wedi eu nodi. Mae'r broses o weithredu strategaeth TG yn dangos perfformiad uchel ac hyd yn oed adran TG 'safon fyd-eang', yn cael ei safoni'n rheolaidd ac yn annibynnol. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd newid busnes i ysgogi gwerth oddi wrth ei buddsoddiadau a'r rhwystrau. Mae pensaernïaeth TG wedi'u diffinio'n glir ac yn cael ei reoli'n dda. Cynnig B: Mae gennych strategaeth ddigidol (nid TG) wedi ei gytuno gan y bwrdd ar gyfer pob rhan o'r busnes. Mae'r broses o lunio strategaeth a gweithredu yn dangos gwerth busnes. Cydnabyddir y bydd costau TG yn cynyddu, ynghyd â newid entrepreneuriaidd a arweinir gan dechnoleg ac arloesi. Mae model risg newydd ar gyfer y busnes cyfan ar waith, gan gydnabod y ddibyniaeth ar dechnoleg ar gyfer enw da, gwasanaeth, cost a llwyddiant yn y dyfodol. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Cynnig A: Mae newid diwylliannol yn ar y gweill o ganlyniad i systemau newydd yn defnyddio TG, gyda'r staff yn ddisgwyliadwy i ddefnyddio systemau ar gyfer gweithgareddau cyffredin, yn enwedig mewn cyllid, adnoddau dynol a chaffael modelau gwasanaeth newydd. Byddant yn gyfforddus gyda hunanwasanaeth electronig ar gyfer pethau fel ceisiadau gwyliau blynyddol, absenoldeb, costau, prynu a newid manylion personol.<br>Cynnig B: Mae'r holl weithwyr cyflogedig yn ymwybodol o effaith 'digidol' a rhan mewn newid y mae hyn yn awgrymu ar eu cyfer – yn yr hyn maent yn ei wneud a sut y gwnânt hynny, yn fwy atebol ac yn gyfrifol, yn gweithredu'n gyflymach. Maent yn gwybod eu bod yn gyfrifol am feddwl am syniadau i wella'r mabwysiadu digidol fel rhan o strategaeth ddigidol – helpu i nodi, blaenoriaethu a harneisio'r cyfle digidol yn eu gwaith o ddydd i ddydd                                    | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Cynnig A: Mae gennych adran TG effeithiol ac arweinydd cryf, gyda syniadau gwych a hanes cyflenwi TG da. Mae byrddau rhaglen yn dilyn dulliau a rhaglen 'Tywysog' / Prince, er mwyn sicrhau dyrannu rolau a chyfrifoldeb, yn effeithiol gyda phrosiectau ei ategu gan achosion busnes effeithiol ac wedi'u tracio.<br>Cynnig B: Mae gennych arweinydd digidol (sef Prif Swyddog Digidol) ac rydych o dan arweiniad y bwrdd digidol, sy'n torri ar draws y busnes cyfan, wedi ei gefnogi gan raglen weithredol effeithiol TG. Mae'r rhaglen ddigidol yn neilltuo cyfrifoldebau digidol clir i holl aelodau bwrdd y rhaglen ddigidol ac yn bwnc rheolaidd i'r prif fwrdd. Caiff arferion gweithio sefydledig, prosesau a sgiliau uwch reolwyr eu herio yn agored ac yn gadarnhaol.                                                                                                                                           | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |   |   |   |   |   |   |   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|
| <p>Cynnig A: Mae gennych reoli ac adrodd effeithiol ar bob un yn ei rhaglenni a newid TG, gydag achosion busnes clir ac yn blaenoriaethu adnoddau yn erbyn uchelgais corfforaethol. Mae pob proses cefn swyddfa yn ddigidol 'hunan-wasanaeth', ac mae gan adrannau unigol gynlluniau digidol o lefelau amrywiol o aeddfedrwydd.</p> <p>Cynnig B: Mae map digidol trosfwaol neu gynllun cyflawni sydd â gorchymyn o sofraniaeth dros bob maes gwasanaeth ac adran, i ddarparu llwyfan digidol cyffredin, proses ac arferion gwaith. Mae prosesau swyddfa gefn y busnes a'r swyddfa flaen yn digidol ac â ffiniau aneglur. Nid yw cyflawni yn unig drwy 'TGCh', ond gan yr holl gyfarwyddwyr a rheolwyr gwasanaethau, wedi ei gydlynw yn gorfforaethol.</p>                                                                                                                                                                                                      | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| <p>Cynnig A: Mae holl raglenni TG yn cael eu barnu'n erbyn amser, cost a metrigau ansawdd, ac mae 'gwireddu manteision' yn cael eu monitro'n ofalus. Mae costau TG yn cael eu olrhain a'u rheoli yn erbyn arfer gorau'r diwydiant, ac yn cael eu hadrodd mewn ffordd dryloyw. Mae TG yn perfformio, gan unrhyw fetrig, ar y lefel uchaf ac mae wedi mabwysiadu arferion modern.</p> <p>Cynnig B: Daw canlyniadau gwerth o newid digidol ac mae buddsoddi yn rhan o dargedau perfformiad y prif swyddog ac yn rhan annatod o bob gwasanaeth cynllunio. Nid oes unrhyw adroddiad blynyddol ar wahân ar gyfer TGCh, dim ond effeithiolrwydd o ddefnydd TGCh i drawsnewid y busnes ac arloesi er budd ariannol a gwasanaeth a nodwyd gan y gwasanaeth. Ystyrir asesiad o berfformiad llwyfan busnes cyffredin TG ar gyfer mabwysiadu digidol yn rheolaidd gan y bwrdd.</p>                                                                                         | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| <p>Cynigiad A: Mae gan y sefydliad sgiliau TG da neu dda iawn, gyda e-ddysgu priodol a hyfforddiant rhaglenni, yn sicrhau bod pob technoleg newydd yn cael ei gyflwyno fel newid wedi'i reoli. Mae llythrennedd TG ymysg y staff yn uchel ac mae sgiliau TG yn cael eu gwerthfawrogi (a'u disgwyl) ar gyfer pob un.</p> <p>Cynnig B: Mae dysgu a datblygu, gan gynnwys sgiliau arweinyddiaeth, yn ei gynllunio mewn modd gyfannol ar draws y busnes i gefnogi mabwysiadu digidol cyflym – gan ystyried cyflogwyr, cyflenwyr, partneriaid a'r cyhoedd. Mae cyflogwyr yn benodol yn gyfforddus a chymwys wrth ddefnyddio offer digidol a gwybodaeth electronig ym mhopeth a wnânt, lle bynnag y maent yn gweithio. Mae hyn yn golygu mwy na'r gallu i ddefnyddio TG, ond yn sut y defnyddir adnoddau i sicrhau gwelliannau i wasanaethau. Mae llythrennedd TG ymysg y staff yn uchel; mae sgiliau TG yn cael eu gwerthfawrogi (a'u disgwyl) ar gyfer pob un.</p> | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| <p>Cynnig A: Mae cyflaeoedd TG wedi eu hymgorffori yn y broses o wasanaethau cynllunio a datblygu, yn edrych yn ofalus ar y potensial sydd gan TG i gynorthwyo fyrdd newydd o weithio ac ymgysylltu gyda'r cwsmeriad. Mae gwasanaethau ar y we yn awtomataidd, yn hawdd i'w darganfod a hawdd i'w ddefnyddio.</p> <p>Cynnig B: 'Digidol yn ddiodyn' yw'r peth cyffredin mewn cynllunio gwasanaeth, a datblygir gwasanaethau i awdurdo defnyddwyr gwasanaeth (cwsmeriaid, cyflenwyr a gweithwyr) a darparwyr gwasanaeth cyfryngol i ddefnyddio dulliau digidol yn gyntaf ac i gymryd rheolaeth. Mae hyn yn golygu bydd dylunio gwe yn dechrau gyda'r defnyddiwr ac mae annog pobl i hawlio deunydd digidol, yn mynnu ei bolisi ac ymarfer.</p>                                                                                                                                                                                                                  | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| <p>Cynnig A: Mae mynediad i'r we yn cael ei flaenoriaethu ac mae yna wasanaeth cyswllt cwsmeriaid 'ddwfn a llydan' sydd yn effeithiol, ac yn defnyddio offer fel 'sgwrs fyw'. Mae dewis y cwsmer yn cael ei flaenoriaethu, tra yn cydnabod nad yw pawb yn gallu deall y 'byd digidol'. Mae 'Digidol yn ddiodyn' yn helpu creu canlyniadau mwy effeithiol o fodelau gweithredu.</p> <p>Cynnig B: Mae'r holl 'brosesau cwsmeriaid' wedi eu digideiddio ac wedi'u personoli, a profiad cwsmer yn gyson ar draws pob sianel. Mae gwasanaethau digidol wedi'u cynllunio ar y cyd gyda defnyddwyr, yn ogystal ag ar draws y gadwyn gyflenwi â phartneriaid. Disgwylir i'r holl ddefnyddwyr gysylltu'n ddigidol neu drwy sefydliadau cyfryngol, a blaenoriaethir mecanweithiau cymorth i alluogi hyn. Mae 'Digidol yn ddiodyn' yn awdurdo defnyddwyr ac fe'i cynlluniwyd ar gyfer hawlio a mynediad cyfartal, nid yn unig ar gyfer effeithlonrwydd.</p>               | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |



|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |   |   |   |   |   |   |   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnig A: Rydych wedi buddsoddi yn dda mewn offer TG, ac yn cadw i fynu gyda'r tueddiadau a'r datblygiadau tra yn barnu yn gywir yr amser cywir i fanteisio arnyn nhw. Rydych yn arweinydd llwyddianus yn cyflwyno gwasanaethau technoleg newydd mewn pethau fel y cyfryngau cymdeithasol, cynadledda fideo, arwyddo sengl ymlaen, rheoli hunaniaeth a awtomeiddio.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Cynnig B: Rydych chi wedi cwblhau adolygiad TG llawn i ystyried 'y gwaelod i fyny', o beth bydd angen ei newid o ran cefnogi'n llawn y symudiad i ddigidol ac i greu llwyfan digidol ar gyfer y dyfodol – y gallu, blaenoriaethu, llywodraethu, datblygiad dulliau, dylunio egwyddorion digidol, technolegau, buddsoddiadau a blaenoriaethu i weithgaredd TG. Mae hyn yn y bôn wedi herio'r gyflenwad TG 'safon fyd-eang' draddodiadol. Nid yw TG draddodiadol bellach yn rwstr i arolesi.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |   |   |   |   |   |   |   |
| Cynnig A: Mae cyfnewidiadau ar gael a y we, ar sawl dyfais wahanol, gyda gwasanaeth llawn o'r dechrau i'r diwedd, ac yn cael gwared o hierarchaeth rheoli mewnol diangen. Mae 'BYOD' yn aeddfed ac yn ddiogel. Mae cyfryngau cymdeithasol yn cael eu ddefnyddio yn eang ac yn effeithiol, gyda data electronig sydd yn dal adborth a'r ymgysylltu gyda'r cwsmeriaid. Cynnig B: Mae prosesau 'Mewnol yn unig' bellach ar gael i gwsmeriaid a chyflenwyr, i gynyddu'r lefel o hunanreoli y mae cwsmeriaid, cyflenwyr a phartneriaid yn ei wneud. Yn benodol mae cyflenwyr yn cymryd rhannau newydd o'r gadwyn werth i leihau unrhyw waith fyddai'n cael ei ailadrodd. Defnyddir 'Data mawr' yn effeithiol i sbarduno penderfyniadau cyflymach a gwasanaethua dylunio. Mae E-lyfrau digidol ar gael i staff i'w cynorthwyo i ymgysylltu'n llawn gyda'r agenda ddigidol. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

| Profiad y cwsmer                                                                                                                                                                                          |                    |             |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-------------|
| Mewn gwirionedd, ydych wedi ymrwymo i ansawdd profiad y cwsmer fel y prif egwyddor cyntaf mewn unrhyw strategaeth ddigidol?                                                                               | Do                 | Naddo       |
| Ydych chi wedi gosod targedau ar gyfer twf mewn boddhad cwsmeriaid, gostyngiad mewn cyswllt diangen, a newid o'r traddodiadol i sianelau digidol?                                                         | Do                 | Naddo       |
| Ydych chi wedi sicrhau fod pob maes gwasanaeth yn cynnal adolygiad o brofiad y cwsmer ar-lein ar gyfer pob un o'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig, gan ddechrau gyda'r gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf? | Do                 | Naddo       |
| A ydych wedi datblygu cynlluniau ar gyfer newid lle mae'r profiad gwasanaeth ar-lein yn brin rhagorol?                                                                                                    | Ddim yn berthnasol | Do<br>Naddo |
| A ydych yn ymgymryd mesuriadau parhaus o weithgaredd y cwsmeriaid a boddhad ar gyfer holl wasanaethau a sianelau?                                                                                         | Ydyn               | Nac ydyn    |
| Ydych chi'n dadansoddi ac yn adrodd ar berfformiad ar y lefel uchaf o wneud penderfyniadau ar gyfer y sefydliad?                                                                                          | Ydyn               | Nac ydyn    |

| Ymrwymiad                                                                                                                                                            |        |          |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|----------|
| Ydych chi wedi adolygu'r potensial ar gyfer offer digidol newydd ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid ym mhob maes gwasanaeth?                                          | Do     | Naddo    |
| Ydych chi wedi gwella cyrhaeddiad ac effaith yr ymgynghoriad drwy ddefnyddio technegau digidol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd gwahanol a gwerthuso effeithiolrwydd? | Do     | Naddo    |
| Ydych chi wedi gwerthuso effeithiolrwydd gwahanol ddulliau a defnyddio'r dysgu?                                                                                      | Do     | Naddo    |
| Ydych chi wedi hyfforddi'r rhai sy'n cynnal ymgynghoriadau mewn sgiliau i adnabod a defnyddio offer digidol mwyaf priodol ar gyfer pob cam o'r broses ymgynghori?    | Do     | Naddo    |
| A allwch ddangos effeithiolrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill drwy fabwysiadu 'digidol yn gyntaf'?                     | Gallaf | Na allaf |
| Ydych chi'n cynnal ymgynghoriadau 'yn gyhoeddus' drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i cyhoeddi a darlledu deunyddiau a chyfarfodydd?                             | Ydyn   | Nc ydyn  |

|                                                                                                                                                      |      |          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------|----------|
| Ydych chi'n galluogi mynediad at y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer holl gyflogeion?                                                                  | Ydyn | Nac ydyn |
| Ydych chi wedi cyhoeddi arweiniad ar sut i'w defnyddio a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr mewn cyfathrebu, gwasanaeth cwsmeriaid a rolau rheng flaen? | Ydyn | Nac ydyn |

|                                                                                                                                                                                                        |      |          |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------|----------|
| Ffyrdd o weithio                                                                                                                                                                                       |      |          |
| Ydych chi wedi cyflwyno cyfleusterau ar-lein ar gyfer prosesau mewnol ar yr egwyddor y dylai unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith, gallai gweithiwr am ei ddefnyddio ar gael ddiofyn ar-lein? | Ydyn | Nac ydyn |
| A ydych chi wedi asesu sgiliau digidol gweithlu eich sefydliad?                                                                                                                                        | Ydyn | Nac ydyn |
| A ydych chi wedi datblygu sgiliau digidol ar draws y sefydliad drwy ddatblygu rhaglenni dysgu mewnol ar ddigidol, rhannu profiadau cyflogai, gwybodaeth ac arfer gorau?                                | Ydyn | Nac ydyn |
| Ydych chi wedi annog pob cyflogai i ddod yn ymwybodol o leiaf o'r holl offer digidol a thechnegau a allai wella eu swyddi?                                                                             | Ydyn | Nac ydyn |
| A ydych chi wedi datblygu rhwydweithiau rhithwir ar gyfer timau mewnol a rhanddeiliaid allweddol i drafod a rhannu gwybodaeth a syniadau?                                                              | Ydyn | Nac ydyn |
| A ydych chi yn annog cyflogeion i ddefnyddio'r sianeli cymdeithasol ar gyfer cyfathrebu mewnol a meithrin perthynas, yn unol â pholisïau a chanllawiau cyfryngau cymdeithasol y sefydliad?             | Ydyn | Nac ydyn |

|                                                                                                                                                                       |                    |      |          |     |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|------|----------|-----|
| Ail ddylunio'n Gwasanaeth                                                                                                                                             |                    |      |          |     |
| A ydych chi wedi sicrhau dull lle byddai prosesau presennol sydd yn cael eu gwneud yn digidol yn cael eu hadolygu a'u hail-ddylunio?                                  | Ydyn               |      | Nac ydyn |     |
